

# Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â Bil Amaethyddiaeth y DU

Ionawr 2019



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:  
**[www.cynulliad.cymru/SeneddNHAMG](http://www.cynulliad.cymru/SeneddNHAMG)**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig**  
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
**Bae Caerdydd**  
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**

E-bost: **[SeneddNHAMG@cynulliad.cymru](mailto:SeneddNHAMG@cynulliad.cymru)**

Twitter: **[@SeneddNHAMG](https://twitter.com/SeneddNHAMG)**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â Bil Amaethyddiaeth y DU

Ionawr 2019



# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 28 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:  
[www.cynulliad.cymru/SeneddNHAMG](http://www.cynulliad.cymru/SeneddNHAMG)

---

## Cadeirydd y Pwyllgor:



**Mike Hedges AC**  
Llafur Cymru  
Dwyrain Abertawe

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Gareth Bennett AC**  
UKIP Cymru  
Canol De Cymru



**Jayne Bryant AC**  
Llafur Cymru  
Gorllewin Casnewydd



**Andrew RT Davies AC**  
Ceidwadwyr Cymreig  
Canol De Cymru



**John Griffiths AC**  
Llafur Cymru  
Dwyrain Casnewydd



**Llyr Gruffydd AC**  
Plaid Cymru  
Gogledd Cymru



**Helen Mary Jones AC**  
Plaid Cymru  
Canolbarth a Gorllewin Cymru



**Joyce Watson AC**  
Llafur Cymru  
Canolbarth a Gorllewin Cymru

---

## Cynnwys

<b>Casgliadau ac argymhelliad.....</b>	<b>5</b>
<b>Argymhelliad .....</b>	<b>9</b>
<b>Cyflwyniad .....</b>	<b>10</b>
<b>1. Bil Amaethyddiaeth y Deyrnas Unedig a'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol .....</b>	<b>13</b>
1. 1. Bil Amaethyddiaeth Llywodraeth y Deyrnas Unedig.....	13
1. 2. Darpariaethau Sefydliad Masnach y Byd .....	13
1. 3. Darpariaethau ar gyfer Cymru ym Mil y Deyrnas Unedig.....	14
1. 4. Darpariaethau newydd a ychwanegwyd yn ystod treigl Bil y Deyrnas Unedig .....	15
<b>2. Yr angen am ddeddfwriaeth a'r ymagwedd a gymerwyd.....</b>	<b>16</b>
2. 1. Yr angen am ddeddfwriaeth.....	16
2. 2. Hyd a lled y pwerau gweithredol .....	19
2. 3. Bil Amaethyddiaeth Cymru .....	21
<b>3. Gadael y Polisi Amaethyddol Cyffredin .....</b>	<b>28</b>
3. 1. Dirwyn taliadau uniongyrchol i ben a'u terfynu .....	28
3. 2. Datgysylltu .....	31
<b>4. Trosglwyddo i system gymorth newydd.....</b>	<b>34</b>
4. 1. Hyd y cyfnod pontio .....	34
4. 2. Modelu a threialu .....	35
<b>5. System newydd o gymorth ariannol .....</b>	<b>40</b>
5. 1. Y dibenion y gellir rhoi cymorth ariannol ar eu cyfer.....	40
5. 2. Mynediad ac ehangder y derbynwyr .....	43
5. 3. Monitro a gorfodi.....	45
<b>6. Arian yn y dyfodol ar gyfer polisi amaeth .....</b>	<b>50</b>
<b>7. Cytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth .....</b>	<b>55</b>
7. 1. Cydymffurfio â Sefydliad Masnach y Byd ar ôl Brexit .....	55

---

**8. Darpariaethau eraill y gwneir cais am gydsyniad ar eu cyfer ..... 60**

8. 1. Casglu a rhannu data.....60

8. 2. Ymyriadau mewn marchnadoedd amaethyddol ..... 62

8. 3. Safonau marchnata a dosbarthiadau carcasau ..... 63

**Atodiad A: Tystiolaeth lafar ..... 66**

## Casgliadau ac argymhelliad

### Yr angen am ddeddfwriaeth a'r ymagwedd a gymerwyd

**Casgliad 1.** Rydym o'r farn mai'r ffordd fwyaf priodol o ddeddfu ar bwnc mor arwyddocaol â dyfodol hirdymor amaethyddiaeth yng Nghymru yw Bil Cynulliad. Rydym o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru roi ymrwymiad y bydd amser ar gael yn rhynglen deddfwriaethol i gyflwyno Bil Amaethyddiaeth Cymru a'i basio cyn diwedd tymor y Cynulliad hwn.....Tudalen 26

**Casgliad 2.** Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod angen deddfwriaeth yn y tymor byr, i barhau i roi cymorth ariannol i'r sector amaethyddiaeth yn syth ar ôl Brexit. O ystyried yr amser sydd ar gael, mae Bil y Deyrnas Unedig yn gerbyd priodol at y diben hwn. Ond, mae'r darpariaethau ym Mil y Deyrnas Unedig yn mynd ymhell y tu hwnt i sicrhau parhad uniongyrchol cymorth ariannol. Maent yn galluogi Gweinidogion Cymru i sefydlu ymagwedd hollol newydd at gymorth i amaethyddiaeth.....Tudalen 26

**Casgliad 3.** Rydym o'r farn bod darpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil yn anghytbwys. Maent yn rhoi pwerau sylweddol i Weinidogion Cymru ond nid ydynt yn rhoi unrhyw ddyletswydd arnynt. Effaith y darpariaethau fydd cyfyngu'n ddifrifol ar allu'r Cynulliad i graffu ar gymorth Llywodraeth Cymru ar gyfer amaethyddiaeth, ar adeg pan fydd craffu effeithiol yn hanfodol i lwyddiant y polisiâu newydd. Nid yw hon yn ymagwedd dderbyniol, a dylai fod yn fater o bryder difrifol i'r Cynulliad. Rydym o'r farn y dylid diwygio Atodlen 3 i gynnwys mesurau diogelu ychwanegol er mwyn sicrhau bod y pwerau gweithredol yn cael eu harfer yn gymesur ac yn briodol. Gallai hyn gynnwys gofyniad i Weinidogion Cymru ymgynghori cyn cyflwyno rheoliadau.....Tudalen 26

**Casgliad 4.** Addawodd Ysgrifennydd y Cabinet yn Brexit a'n tir bod y darpariaethau yn y Bil yn gyfystyr â threfniadau trosiannol a fydd yn "gyfyngedig o ran amser". Nid oes cyfyngiadau o'r fath wedi eu cynnwys ym Mil y Deyrnas Unedig, fel y'i drafftwyd. Rydym o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru geisio gwelliant i Fil y Deyrnas Unedig er mwyn cyflwyno "cymal machlud" mewn perthynas â darpariaethau Cymru.....Tudalen 27

**Casgliad 5.** Yn sgil digwyddiadau diweddar yn San Steffan, dylai Llywodraeth Cymru ystyried yr angen am fesurau wrth gefn priodol i sicrhau y gellir rhoi cymorth ariannol i'r sector amaethyddol yn syth ar ôl Brexit. ....Tudalen 27

## Gadael y Polisi Amaethyddol Cyffredin

**Casgliad 6.** Mae hwn yn gyfnod o ansicrwydd sylweddol i'r sector amaeth yng Nghymru. Rydym yn cydnabod pam mae'r sector wedi ymateb yn bryderus i'r cynigion i ddirwyn taliadau uniongyrchol i ben. O ystyried yr amser sydd ar gael, rydym yn cefnogi cynnwys darpariaethau ym Mil y Deyrnas Unedig i barhau â thaliadau uniongyrchol yn syth ar ôl Brexit. Rydym o'r farn y bydd hyn yn rhoi sicrwydd i'r sector..... Tudalen 32

**Casgliad 7.** Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi dweud na fydd unrhyw benderfyniad polisi yn cael ei gymryd nes bydd canlyniadau ymgynghoriad Brexit a'n tir yn hysbys. Mae Ysgrifennydd y Cabinet hefyd wedi dweud ei bod hi'n bwriadu dirwyn taliadau uniongyrchol i ben. Nid yw'r ddau safbwynt hyn yn gydnaws..... Tudalen 33

**Casgliad 8.** Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cynnal asesiad o effaith dirwyn taliadau uniongyrchol i ben. Rydym o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru roi ymrwymiad i beidio â dechrau dirwyn taliadau uniongyrchol i ben nes daw'r amser y bydd wedi cwblhau a chyhoeddi asesiad effaith manwl ar draws y sector. .... Tudalen 33

**Casgliad 9.** Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn am gynnwys pwerau gweithredol eraill o dan Ran 2 o Atodlen 3. Er enghraifft, y darpariaethau sy'n ymwneud â thaliadau wedi eu datgysylltu. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi darparu gwybodaeth i'r Cynulliad ynghylch sut mae'n bwriadu defnyddio'r pwerau hyn, pe bai'r Cynulliad yn rhoi caniatâd. Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut mae'n bwriadu defnyddio'r pwerau hyn..... Tudalen 33

## Trosglwyddo i system gymorth newydd

**Casgliad 10.** Nid yw Llywodraeth Cymru wedi rhoi eglurder i'r Cynulliad ynglŷn â'r man cychwyn na'r amserlen ar gyfer pontio o'r trefniadau presennol i gynlluniau yn y dyfodol. Yn Brexit a'n tir, dywedodd Llywodraeth Cymru mai ei huchelgais oedd i'r cyfnod pontio ddechrau yn 2020 a chael ei gwblhau erbyn 2025. Yn fwy diweddar, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai taliadau uniongyrchol yn cael eu gwneud, heb eu newid, ar gyfer blwyddyn dalu 2020 y PAC. Rydym o'r farn bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru egluro ei bwriadau mewn perthynas â phryd bydd y cyfnod pontio yn dechrau a beth fydd hynny'n ei olygu i'r sector yn ymarferol..... Tudalen 39



**Casgliad 11.** Pa un ai a yw'n dymuno dechrau pontio yn 2020, 2021 neu, yn wir, yn ddiweddarach, mae Llywodraeth Cymru yn wynebu heriau sylweddol, o gofio y bydd angen ymgymryd â gwaith modelu manwl, asesiadau effaith a sefydlu cynlluniau peilot yn gyntaf i lywio'r gwaith o ddatblygu a gweithredu'r cynlluniau newydd. Rydym o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru roi ymrwymiad na fydd y broses o drosglwyddo i gynlluniau newydd yn dechrau nes i'r gwaith hwn gael ei gwblhau..... Tudalen 39

## System newydd o gymorth ariannol

**Casgliad 12.** Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi dweud na fydd unrhyw benderfyniad yn cael ei gymryd ar fanylion y system gymorth ariannol newydd nes bydd canlyniad ymgynghoriad Brexit a'n tir yn hysbys. Gan hynny, nid yw Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i egluro i'r Cynulliad yn fanwl y dibenion y bydd y pwerau hyn yn cael eu defnyddio ar eu cyfer..... Tudalen 49

**Casgliad 13.** Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi nodi, os bydd Llywodraeth Cymru, o ganlyniad i dreialu a modelu, yn penderfynu bod y cynlluniau a gynigir yn Brexit a'n Tir yn amhriodol, bydd ymagweddau eraill yn cael eu hystyried a'u datblygu. Mae hyn yn golygu, mewn gwirionedd, y gellir defnyddio'r darpariaethau at ddibenion sy'n anhysbys ar hyn o bryd..... Tudalen 49

**Casgliad 14.** Bydd Bil y Deyrnas Unedig yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno system newydd o gymorth ariannol ar gyfer amaethyddiaeth, ar ôl 40 mlynedd o'r PAC. Nid yw'r darpariaethau, fel y'u drafftwyd, yn cynnwys unrhyw rôl oruchwylio na monitro i'r Cynulliad wrth sefydlu neu weithredu'r system gymorth ariannol newydd. Nid ydym o'r farn bod hyn yn briodol mewn meysydd allweddol o gyfrifoldeb datganoledig. Dyma'r tro cyntaf, ers datganoli, i Gymru gael cyfle i lunio ei pholisi ei hun yn y maes hwn, ac mae'n iawn bod y Cynulliad yn chwarae rôl lawn yn hyn o beth. .... Tudalen 49

**Casgliad 15.** Dylai Llywodraeth Cymru geisio diwygiadau i Fil y Deyrnas Unedig i'w gwneud yn ofynnol: mai dim ond drwy gynlluniau a sefydlir gan Reoliadau y gellir rhoi cymorth ariannol dan Ran 1; y dylai'r Rheoliadau hyn fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol; a bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru adrodd i'r Cynulliad yn flynyddol ar effeithiolrwydd unrhyw gynllun a sefydlwyd..... Tudalen 49

**Casgliad 16.** Ni fu unrhyw asesiad o effaith ariannol y penderfyniad i ehangu mynediad at gynlluniau yn y dyfodol. Gan hynny, nid yw Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i esbonio i'r Cynulliad pa effaith y bydd y penderfyniad hwn yn ei chael ar ffermwyr. Fel y cyfeirir ato mewn casgliadau blaenorol, credwn na ddylai Llywodraeth Cymru ddechrau trosglwyddo i'r cynlluniau newydd nes iddi gynnal asesiad o effaith ehangu mynediad at gymorth ariannol a chyhoeddi'r canlyniadau. .... Tudalen 49

## Arian yn y dyfodol ar gyfer polisi amaeth

**Casgliad 17.** Nid yw cenhedloedd cyfansoddol y Deyrnas Unedig wedi dod i gytundeb eto ar drefniadau cyllido amaethyddiaeth yn y Deyrnas Unedig ar gyfer 2020-2022. At hynny, nid oes eglurder o ran trefniadau cyllido mwy hirdymor. Rhaid sefydlu mecanwaith rhynglywodraethol newydd i sicrhau cytundeb cynaliadwy, hirdymor ar gyfer cyllido amaethyddiaeth a rheoli tir yn y Deyrnas Unedig. .... Tudalen 53

**Casgliad 18.** Nid yw Llywodraeth Cymru wedi darparu unrhyw wybodaeth ariannol i'r Cynulliad mewn perthynas â chostau cyflwyno cynlluniau newydd, ac eithrio dweud na fydd "goblygiadau ariannol uniongyrchol". Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi dweud bod pwerau cyfatebol i'r Ysgrifennydd Gwladol yn debygol o arwain at "wariant sylweddol". Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i gyhoeddi, cyn sefydlu cynlluniau newydd, asesiad effaith rheoleiddiol llawn o'r cynigion, a ddylai gynnwys asesiad manwl o gostau ac asesiad o ran nodau llesiant, ond ni ddylid cyfyngu'r asesiad i hynny'n unig. .... Tudalen 54

## Cytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth

**Casgliad 19.** Rydym yn rhannu pryderon rhanddeiliaid am oblygiadau posibl y darpariaethau yng nghymal 26 mewn perthynas â Sefydliad Masnach y Byd, a'u potensial i gyfyngu ar Lywodraeth Cymru mewn meysydd datganoledig. Rydym o'r farn y dylid mynd i'r afael â hyn naill ai drwy welliant i Fil y Deyrnas Unedig neu, ar y lleiaf, gytundeb ffurfiol wedi ei gyhoeddi rhwng Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru. .... Tudalen 59

**Casgliad 20.** Mae angen dybryd am fecanwaith rhynglywodraethol ffurfiol ar lefel Weinidogol i ddatrys anghydfodau a allai godi mewn perthynas â gweithredu polisi amaethyddiaeth yn y Deyrnas Unedig yn y dyfodol. Dylai hwn fod yn fodel o lywodraethu ar y cyd yn seiliedig ar gydraddoldeb parch. .... Tudalen 59

## Darpariaethau eraill y gwneir cais am gydsyniad ar eu cyfer

**Casgliad 21.** Rydym yn cytuno mewn egwyddor â'r darpariaethau a amlinellir yn yr adran hon o'r adroddiad. Fodd bynnag, rydym o'r farn nad yw Llywodraeth Cymru wedi darparu gwybodaeth i egluro'n fanwl y dibenion y bydd yn defnyddio'r darpariaethau ar eu cyfer. Mae'r rhain yn bwerau gweithredol helaeth, a dylai Llywodraeth Cymru egluro eu pwrpas a'u heffaith arfaethedig. Rydym yn ailadrodd ein sylwadau ynghylch yr angen am gynnwys mesurau diogelu yn Atodlen 3 er mwyn sicrhau bod y pwerau hyn yn cael eu harfer yn briodol ac yn gymesur. .... Tudalen 65

**Casgliad 22.** Rydym yn cytuno â'n rhanddeiliaid ynghylch yr angen am "gydweithrediad a chytundeb" rhwng cenhedloedd cyfansoddol y Deyrnas Unedig wrth arfer y pwerau hyn. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn perthynas â safonau iechyd anifeiliaid ac ymyrraeth yn y farchnad. Rhaid ymdrin â hyn drwy fecanwaith rhynglywodraethol, ffurfiol, fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn. .... Tudalen 65

## Argymhelliad

Rydym yn argymhell i'r Cynulliad ei fod yn cydsynio â'r darpariaethau ym Mil Amaethyddiaeth y Deyrnas Unedig, yn ddarostyngedig i'r amodau a ganlyn -

- Dylai Llywodraeth Cymru geisio diwygiadau i Fil y Deyrnas Unedig i roi casgliadau 3, 4, 15, 19 a 21 ar waith; a
- Dylai Llywodraeth Cymru roi ymrwymïadau i'r Cynulliad, neu eglurhad lle bo'n briodol, mewn perthynas â'r materion a godwyd yng nghasgliadau 1, 8, 10, 11 ac 18.

Os na ellir bodloni'r amodau uchod, rydym yn argymhell y dylid cyfyngu ar gydsyniad y Cynulliad i'r darpariaethau yn Rhan 2, Atodlen 3 sy'n galluogi parhau â chymorth ariannol yn syth ar ôl Brexit, nes gellir cyflwyno Bil Amaethyddiaeth (Cymru). O dan yr amgylchiadau hyn, byddem yn disgwyl i Lywodraeth Cymru gyflwyno Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol newydd i weithredu hyn.

## Cyflwyniad

### Ein dull o weithredu

1. Ar 4 Hydref 2018, cyflwynodd Lesley Griffiths AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig (Ysgrifennydd y Cabinet) Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (LCM) gerbron y Cynulliad mewn perthynas â Bil Amaethyddiaeth Llywodraeth y Deyrnas Unedig (Bil y Deyrnas Unedig).
2. Ar 9 Hydref 2018, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (y Pwyllgor), y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaethol Ychwanegol, a phennu mai 14 Rhagfyr 2018 fyddai'r dyddiad cau o ran adrodd. Yn dilyn hynny, cytunodd y Pwyllgor Busnes ar ddyddiad estynedig o 4 Ionawr 2019, yn dilyn cais gan y Pwyllgor hwn.
3. Oherwydd yr amser sydd ar gael i'r Pwyllgor ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, nid oedd y Pwyllgor mewn sefyllfa i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynigion.
4. Cawsom dystiolaeth gan academyddion a chynrychiolwyr o'r sectorau amaethyddol, coedwigaeth ac amgylcheddol. Fe wnaethom hefyd ddefnyddio dystiolaeth o'n hymchwiliad cydamserol i gynllun arfaethedig Nwyddau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru, a nodir yn *Brexit a'n tir*.
5. Cawsom dystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet a'i swyddogion ar 6 Rhagfyr 2018.

### Cefndir deddfwriaethol a pholisi

#### Y Polisi Amaethyddol Cyffredin

---

6. Mae'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) yn rhedeg am gyfnod o saith mlynedd yn unol â chylch cyllideb yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r cytundeb PAC cyfredol a'r cyllid yn rhedeg tan 2020 ac mae proses yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer cytuno ar y rownd PAC newydd ar gyfer 2021-2027 ar y gweill.
7. Mae'r PAC yn cynnwys dau "biler". Mae cyllid PAC i'r Deyrnas Unedig yn cynnwys y canlynol:

## Piler I -

- **Taliadau uniongyrchol** – Yn bennaf seiliedig ar yr ardal a ffermir. Mae hyn yn bennaf yn cynnwys y Cynllun Taliad Sylfaenol (BPS) yn ogystal ag elfen “troi'n wyrdd”, sy'n 30% o gyfanswm y Taliad Uniongyrchol, a'r Cynllun Ffermwyr Ifanc.
- **Mesurau cymorth i'r farchnad fel rhan o reoleiddio Sefydliad y Farchnad Gyffredin (CMO)** – Dyma'r set o reolau a ddefnyddir i drefnu'r farchnad sengl ar gyfer cynhyrchion amaethyddol.

## Piler II

- **Cyllid datblygu gwledig** – Mae hyn yn cefnogi nifer o fesurau datblygu gwledig, gan gynnwys cynlluniau amaeth-amgylcheddol a'r economi wledig ehangach.

**8.** Mae amaethyddiaeth a gweithredu'r PAC wedi ei ddatganoli felly mae'n rhaid i bob gweinyddiaeth ddatganoledig gydymffurfio â chwrdd â fframwaith deddfwriaethol y PAC a rheoli'r taliadau uniongyrchol i ffermwyr.

**9.** Mae gadael yr Undeb Ewropeaidd yn golygu y bydd y Deyrnas Unedig hefyd yn peidio â chymryd rhan yn y Polisi Amaethyddol Cyffredin ('PAC') a'i system o daliadau cymorth i ffermydd, rhaglenni datblygu gwledig a mesurau yn y farchnad.

**10.** Ar ôl i'r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd, bydd yn rhaid i'r Deyrnas Unedig fodloni ei rwymedigaethau gyda Sefydliad Masnach y Byd sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth, yn hytrach na thrwy'r Undeb Ewropeaidd.

## Brexit a'n tir

---

**11.** Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei dogfen ymgynghori, ***Brexit a'n tir***, ym mis Gorffennaf 2018. Mae'n nodi cynigion ar gyfer Rhaglen Rheoli Tir newydd i Gymru, gan gynnwys ffermio a choedwigaeth, i'w chyflwyno yn dilyn ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

**12.** Mae'r Rhaglen Rheoli Tir newydd arfaethedig yn cynnwys dwy elfen:

- **Y Cynllun Cydnerthedd Economaidd:** buddsoddiad ar gyfer gweithgareddau economaidd, yn enwedig cynhyrchu bwyd a choed.
- **Cynllun Nwyddau Cyhoeddus:** cymorth uniongyrchol ar gyfer darparu nwyddau cyhoeddus, yn enwedig ar gyfer yr amgylchedd.

**13.** Yn ôl y ddogfen ymgynghori, bydd trosglwyddo i'r cynlluniau newydd arfaethedig yn dechrau wrth i Daliadau Uniongyrchol gael eu dirwyn i ben yn raddol o 2020, a disgwylir i gynlluniau newydd fod yn gwbl weithredol erbyn 2025.

**14.** Daeth yr ymgynghoriad ar y cynigion uchod i ben ar 30 Hydref 2018, dros chwe wythnos ar ôl cyflwyno Bil y Deyrnas Unedig. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i gyhoeddi Papur Gwyn yn y gwanwyn cyn Bil Amaethyddiaeth Cymru, a ddisgwylir cyn diwedd y Cynulliad hwn.

# 1. Bil Amaethyddiaeth y Deyrnas Unedig a'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

## 1.1. Bil Amaethyddiaeth Llywodraeth y Deyrnas Unedig

**15.** Nodir yn y Nodiadau Esboniadol a ddaw gyda Bil Amaethyddiaeth Llywodraeth y Deyrnas Unedig (Bil y Deyrnas Unedig):

“[The UK Bill] will provide the legal framework for the United Kingdom (UK) to leave the Common Agricultural Policy (CAP) and establish a new system based on public money for public goods for the next generation of farmers and land managers.”<sup>1</sup>

**16.** Gofynnir am gydsyniad y Cynulliad ar gyfer y darpariaethau a ganlyn (ym mil y Deyrnas Unedig, fel y'i cyflwynir):

- Cymal 26, sy'n rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau ynghylch sicrhau cydymffurfiaeth gan y Deyrnas Unedig â'i rhwymedigaethau o dan Gytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth (AoA).
- Cymal 27, sy'n cyflwyno Atodlen 3, ac sy'n cynnwys darpariaethau penodol yng Nghymru.

**17.** Gofynnir am gydsyniad y Cynulliad hefyd ynghylch darpariaethau o fewn Cymalau 29, 30, 31, 32, 34, 35, ac ar gyfer Atodlen 5.

## 1.2. Darpariaethau Sefydliad Masnach y Byd

**18.** Mae Cymal 26 yn darparu pwerau gwneud rheoliadau i'r Ysgrifennydd Gwladol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gan y Deyrnas Unedig â'i rhwymedigaethau o dan Gytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth.

**19.** Ar 12 Medi, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad ysgrifenedig i gyd-fynd â chyhoeddi Bil y Deyrnas Unedig, lle dywedodd:

“Mae rheoli Cytundeb y DU ar Amaethyddiaeth yn Sefydliad Masnach y Byd yn fater y mae Llywodraeth y DU yn credu sydd wedi ei gadw yn ôl. O ran y gyfraith, nid yw Llywodraeth Cymru yn derbyn pob agwedd ar y cymal fel mater a gedwir yn ôl, a ph'un bynnag, mae perthynas gref ac

---

<sup>1</sup> Nodiadau Esboniadol Bil Amaethyddiaeth y Deyrnas Unedig

amllwg rhwng y pwerau WTO a chyfrifoldebau datganoledig ar gymorth amaethyddol.”<sup>2</sup>

**20.** Ar y sail hon, gofynnir am gydsyniad y Cynulliad ar gyfer cymal 26.

### 1. 3. Darpariaethau ar gyfer Cymru ym Mil y Deyrnas Unedig

**21.** Mae Cymal 27 ac Atodlen 3 wedi eu cynnwys ym Mil y Deyrnas Unedig ar gais Llywodraeth Cymru. Mae’r darpariaethau hyn yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru sy’n debyg iawn i’r rhai a roddwyd i’r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Lloegr yn Rhannau 1 i 5 o Fil y Deyrnas Unedig.

**22.** Mae Atodlen 3 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru iddynt allu:

- darparu cymorth ariannol i’r sector amaethyddol yn dilyn ymadawiad y Deyrnas Unedig â’r Undeb Ewropeaidd;
- symleiddio’r system gyfredol o daliadau uniongyrchol;
- dirwyn taliadau uniongyrchol i ben cyn terfynu taliadau o’r fath ar ddiwedd y cyfnod pontio amaethyddol;
- casglu a rhannu data o fewn neu mewn cysylltiad agos â’r gadwyn gyflenwi bwyd-amaeth;
- datgan cyfnod o amodau marchnad eithriadol a rhoi cymorth ychwanegol i ffermwyr yn ystod y cyfnod hwnnw; a
- gwneud darpariaeth ar gyfer safonau marchnata a dosbarthiadau carcassau yng Nghymru.

**23.** Yn ôl y Memorandwm:

“Bwriedir i’r pwerau sy’n cael eu cymryd ar gyfer Gweinidogion Cymru fod yn rhai trosiannol, hyd nes y gellir cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol, i gynllunio system ‘A Wnaed yng Nghymru’ sy’n gweithio ar gyfer amaethyddiaeth Cymru, diwydiannau gwledig a’n cymunedau... Ein bwriad yw cyflwyno Bil Amaethyddiaeth Cymru yn ystod y tymor hwn.”<sup>3</sup>

---

<sup>2</sup> Datganiad ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig - Cyflwyniad i Fil Amaethyddiaeth y Deyrnas Unedig, 12 Medi 2018

<sup>3</sup> Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil Amaethyddiaeth

---



## 1. 4. Darpariaethau newydd a ychwanegwyd yn ystod treigl Bil y Deyrnas Unedig

**24.** Yn ystod cyfnod y pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin, gwnaed nifer o welliannau sylweddol i'r Bil, gan gynnwys gosod rhan newydd (Rhan 8) mewn perthynas â'r Ardoll Cig Coch.

**25.** Gwnaed dau welliant sylweddol hefyd i Atodlen 3. Mewnosodwyd darpariaethau newydd i alluogi Gweinidogion Cymru:

- i ostwng y nenfydau taliadau uniongyrchol i Gymru yn 2020 gymaint â 15% drwy reoliadau; a
- darparu ar gyfer parhad y cynllun taliadau sylfaenol y tu hwnt i 2020.

**26.** Mewn gohebiaeth â'r Pwyllgor, cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol yn cael ei gyflwyno "os gwneir diwygiadau i ddarpariaethau Cymru y byddai angen caniatâd ar eu cyfer".<sup>4</sup>

---

<sup>4</sup> Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, dyddiedig 21 Tachwedd 2018

---

## 2. Yr angen am ddeddfwriaeth a'r ymagwedd a gymerwyd

### 2. 1. Yr angen am ddeddfwriaeth

**27.** O dan yr holl senarios arfaethedig ar gyfer Brexit, mae'n rhaid i'r Deyrnas Unedig adael y PAC. Caiff y PAC ei lywodraethu'n bennaf a'i ategu gan fframwaith deddfwriaethol craidd o reoliadau uniongyrchol yr Undeb Ewropeaidd sy'n gysylltiedig â gweithredoedd dirprwyedig a gweithredu cysylltiedig (deddfwriaeth drydyddol) yn unol â chylch cyllideb yr Undeb Ewropeaidd. Bydd y rhain yn cael eu hymgorffori yn neddf gwlad y Deyrnas Unedig ar ei hymadawiad â'r Undeb Ewropeaidd yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

**28.** Bydd Bil y Deyrnas Unedig (a darpariaethau ar gyfer Cymru sydd yn Atodlen 3) yn galluogi diwygio deddfwriaeth y PAC wedi ei throsglwyddo i baratoi ar gyfer cynlluniau talu newydd.

### Tystiolaeth gan randdeiliaid

**29.** Cydnabu rhanddeiliaid fod angen deddfwriaeth o ryw fath er mwyn galluogi parhad cymorth ariannol i'r sector amaethyddol yn dilyn ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

**30.** Er gwaethaf yr uchod, roedd lefelau amrywiol o gefnogaeth ar gyfer defnyddio Bil y Deyrnas Unedig i ddeddfu mewn perthynas â Chymru. Er bod rhai tystion o'r farn bod Llywodraeth Cymru wedi cymryd agwedd bragmatig drwy ofyn am y pwerau yn Atodlen 3, codwyd pryder ynghylch y diffyg cyfle i'r Cynulliad graffu ynghyd â chwmpas eang y darpariaethau.

**31.** Holodd cynrychiolwyr y sector amaethyddol ynghylch priodoldeb (a mynegi pryder ynghylch) defnyddio Bil y Deyrnas Unedig a phwerau dirprwyedig o fewn Atodlen 3 i derfynu taliadau uniongyrchol a chyflwyno rhywbeth a fyddai'n bolisi amaethyddol newydd i Gymru mewn gwirionedd. Trafodir y materion hyn yn fanylach yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

**32.** Wrth roi sylwadau ar yr angen am ddeddfwriaeth, dywedodd NFU Cymru ei bod yn "hanfodol bod gennym rywfaint o fecanwaith ar gyfer sicrhau bod taliadau'n parhau ar ôl i ni adael y polisi amaethyddol cyffredin yn fuan".<sup>5</sup>

---

<sup>5</sup> Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, Cofnod y Trafodion, paragraff 163, 14 Tachwedd 2018

Croesawodd NFU Cymru y sicrwydd bod y darpariaethau yn darparu ar gyfer ffermwyr yng Nghymru. Fodd bynnag, awgrymodd y byddai wedi ffafrio Bil i Gymru, a fyddai'n destun craffu llawn gan y Cynulliad, "yn hytrach na dilyn y drefn drwy Fesur Amaeth y Deyrnas Unedig".<sup>6</sup>

**33.** Derbyniodd Undeb Amaethwyr Cymru (FUW) yr angen am ddeddfwriaeth i alluogi parhad taliadau o dan y cynlluniau talu presennol, gan groesawu "pob rhan o'r Bil Amaethyddiaeth sydd ei angen i drawsfudo deddfwriaeth a phwerau'r Undeb Ewropeaidd" i gyfraith ddomestig yn ddiraferth. Fodd bynnag, dywedodd:

"...there is necessary legislation in association with Brexit, and then there is legislation that you volunteer to bring in, which adds to your already huge and overwhelming workload. That's the case here, as it is in London. Anything that's over and above is dangerous, and rushed legislation is often very bad legislation. It's unscrutinised, it's not properly considered..."

**34.** Roedd cynrychiolwyr y sector amgylcheddol yn cefnogi'r ymagwedd a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru, gan bwysleisio fod darpariaethau Cymru yn fesur dros dro, i'w defnyddio nes bod Bil Cymru ar waith.

**35.** Cyfeiriodd Cyswllt Amgylchedd Cymru (WEL) at ymagwedd Llywodraeth Cymru fel "gwaith diplomyddol llwyddiannus iawn". Ychwanegodd:

"...the Cabinet Secretary [has] got it written into this Bill that she can do as much as she needs to do...So, there are loads of powers for her and very limited duties, and she has very clearly said that she will be bringing forth another Bill. And that will be our very specific piece of Welsh legislation. So, what she has achieved here is giving herself the ability to do a very Welsh-focused thing, whilst accepting all those powers under the UK."<sup>7</sup>

## Tystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet

**36.** Mewn gohebiaeth at y Pwyllgor, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

"Mae angen darpariaethau Cymru yn y Mesur nawr i ddarparu sylfaen gyfreithiol i Weinidogion Cymru i barhau â chynlluniau presennol yn dilyn ein hymadael o'r Undeb Ewropeaidd (UE) a darparu hyblygrwydd

---

<sup>6</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 163, 14 Tachwedd 2018

<sup>7</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 324, 14 Tachwedd 2018

---

ar gyfer pontio a gweithredu cynlluniau newydd, os oes angen hynny. Heb bwerau o'r fath ni fyddai Llywodraeth Cymru yn gallu parhau i dalu cymorth amaethyddol yn 2020 neu i symleiddio'r cynlluniau presennol ... Mae'r pwerau'n rhoi'r hyblygrwydd i ddechrau pontio, unwaith y gwnaed penderfyniadau polisi ar natur cynlluniau newydd.”<sup>8</sup>

**37.** Pan ofynnwyd iddynt egluro a fyddai Llywodraeth Cymru yn gallu dibynnu ar gyfraith yr Undeb Ewropeaidd a gadwyd i barhau i wneud taliadau i ffermwyr o dan y cynlluniau PAC presennol os na chynhwyswyd darpariaethau Cymru ym Mil y Deyrnas Unedig, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

“If the UK leaves the EU without a Brexit agreement, new regulations correcting deficiencies in the EU regulations (including the Common Agricultural Policy (CAP) Direct Payments regulation for scheme year 2020) will come into effect on 29 March 2019 under the UK Withdrawal Act. In this scenario, the Direct Payments regulation would apply up until claim year 2020 only. The provision to allow the making of Direct Payments beyond 2020 is therefore being taken under the UK Agriculture Bill.

“In the event of an agreement on an Implementation Period running up until 31 December 2020, EU regulations would continue to apply until that date, with the exception of the CAP Direct Payments regulation which is not included in the current draft Withdrawal Agreement for scheme year 2020. As currently drafted, the Agriculture Bill does not include powers to make Direct Payments in 2020 in this scenario.”<sup>9</sup>

**38.** Ar 28 Tachwedd, mewn ymateb i Ddadl Plaid Cymru yn y Cyfarfod Llawn ar Daliadau Fferm Uniongyrchol, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

“...er mwyn talu cynlluniau'r taliadau sylfaenol, cyn inni gael [Bil Amaethyddiaeth Cymru], rwyf angen y pwerau dros dro hynny o Fil Amaethyddiaeth y DU... Felly, dyna oedd un o'r rhesymau pam ein bod

---

<sup>8</sup> Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Materion Gwledig at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, dyddiedig 30 Hydref 2018

<sup>9</sup> Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, dyddiedig 21 Tachwedd 2018

wedi gorfod edrych ar bwerau pontio. Fel arall, ni fyddem yn gallu talu dim i ffermwyr.”<sup>10</sup>

**39.** Wrth roi sylwadau ar bwrrpas ac effaith arfaethedig y pŵer newydd i ddarparu ar gyfer parhad y cynllun taliadau sylfaenol y tu hwnt i 2020, (yn Atodlen 3, fel y'i diwygiwyd yn ystod y pwyllgor), dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

“So, the current direct payment regulations only contain ceilings, which is the method of calculating payments to farmers up to the end of the 2020 scheme year...if we didn't have a replacement for determining the amount, we wouldn't be able to continue, then, paying BPS. So, the purpose of that amendment is to provide a power to prescribe the method by which ceilings will then be determined after 2020 so that we can continue to pay BPS payments. I just think we need to be prepared for all eventualities. It's such an uncertain time at the moment for everyone, so we need to make sure that we have the potential to continue making basic payment schemes after 2020 if that's what we, obviously, choose to do.”<sup>11</sup>

## 2. 2. Hyd a lled y pwerau gweithredol

**40.** Mae'r Bil yn cynnwys pwerau galluogi eang i Weinidogion. Mae Atodlen 3 yn cynnwys darpariaethau ar gyfer Gweinidogion Cymru yn unig. Yn ei adroddiad ar Fil y Deyrnas Unedig, roedd Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio Tŷ'r Arglwyddi (Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi) yn feirniadol iawn o'r ymagwedd a gymerwyd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Roedd Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi “yn gresynu wrth weld ymagwedd Llywodraeth y Deyrnas Unedig”,<sup>12</sup> sy'n:

“...represents a major transfer of powers from the EU to Ministers of the Crown, bypassing Parliament and the devolved legislatures in Wales and Northern Ireland.

Parliament will not be able to debate the merits of the new agriculture regime because the Bill does not contain even an outline of the substantive law that will replace the CAP... Most debate will centre on delegated powers because most of the Bill is about delegated powers.

---

<sup>10</sup> Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, paragraff 351, 28 Tachwedd 2018

<sup>11</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 25, 6 Rhagfyr 2018

<sup>12</sup> Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio Tŷ'r Arglwyddi, Adroddiad Tri Deg Pedwar, Bil Amaethyddiaeth

At this stage it cannot even be said that the devil is in the detail, because the Bill contains so little detail.”<sup>13</sup>

## Tystiolaeth gan randdeiliaid

**41.** Cafwyd barn gymysg gan randdeiliaid ar hyd a lled pwerau gweithredol, a maint a natur y pwerau dirprwyedig. Roedd rhai rhanddeiliaid o’r farn y dylid ymestyn darpariaethau o’r fath “mor eang â phosibl”<sup>14</sup> i sicrhau digon o hyblygrwydd cyn cyflwyno Bil yng Nghymru. Mynegodd eraill bryder y byddai’r darpariaethau’n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud newidiadau sylweddol i bolisi amaethyddol, heb lawer o oruchwyliaeth na chraffu gan y Cynulliad.

**42.** Galwodd Cymdeithas Ffermwyr Tenant Cymru am “ddyletswyddau cadarnach ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod gennym sector amaethyddol hyfyw, gynaliadwy a chadarn yn y dyfodol yng Nghymru”.<sup>15</sup> Roedd hefyd o’r farn bod maint y pwerau dirprwyedig yn Atodlen 3 yn ei gwneud yn ofynnol cael “llawer iawn o ymddiriedaeth yn Llywodraethau’r presennol a’r dyfodol i gyflwyno polisi priodol”. Awgrymodd y dylai rheoliadau a ddygwyd ymlaen dan Atodlen 3 fod yn destun craffu cyn deddfu gan y Cynulliad.<sup>16</sup>

**43.** Cyfeiriodd FUW at gasgliadau Pwyllgor Tŷr Arglwyddi gan rybuddio:

“...in the absence of proper scrutiny, checks and balances, Ministers may nevertheless use such powers to introduce draconian regimes which are far more burdensome and intrusive than those currently in force under EU Regulations.”<sup>17</sup>

**44.** Tynnodd NFU Cymru sylw at y “swm llawer llai o waith craffu” sy’n gysylltiedig â’r broses o wneud rheoliadau. Mynegodd siom ynghylch diffyg dyletswyddau ar Weinidogion Cymru i ymgynghori cyn arfer “o leiaf rhai o’r pwerau pellgyrhaeddol”. Dywedodd NFU Cymru y gallai cynnwys dyletswyddau o’r fath fod wedi mynd “rywfaint o’r ffordd at liniaru diffyg goruchwyliaeth go iawn dros arfer y pwerau hyn gan y Cynulliad Cenedlaethol”.<sup>18</sup>

---

<sup>13</sup> Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio Tŷr Arglwyddi, Adroddiad Tri Deg Pedwar, Bil Amaethyddiaeth

<sup>14</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 323, 14 Tachwedd 2018

<sup>15</sup> Papur Tystiolaeth – Cymdeithas y Ffermwyr Tenant, Pwyllgor CCERA, 14 Tachwedd 2018

<sup>16</sup> ibid

<sup>17</sup> Papur Tystiolaeth – FUW, Pwyllgor CCERA, 14 Tachwedd 2018

<sup>18</sup> Papur Tystiolaeth – NFU Cymru, Pwyllgor CCERA, 14 Tachwedd 2018

---

**45.** Roedd cynrychiolwyr y sector amgylcheddol yn gwbl gefnogol i'r pwerau dirprwyedig helaeth. Fodd bynnag, wrth roi sylwadau ar y pwerau cyfatebol i'r Ysgrifennydd Gwladol, cyfeiriodd Cyswllt Amgylchedd Cymru at adroddiad Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi, a dywedodd:

“At a UK level, we’re very strongly pushing to put duties in there, not just powers, but, again, this is not the future Welsh legislation, this is just a step towards the future Welsh legislation.”<sup>19</sup>

## Tystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet

**46.** Wrth roi sylwadau ar hyd a lled y pwerau dirprwyedig, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

“...I am committed to consulting stakeholders properly should these powers be used... The powers in the Agriculture Bill are generally enabling powers which require separate secondary legislation to take effect. The Assembly and the Committee will, therefore, have the opportunity for scrutiny.”<sup>20</sup>

**47.** Yn dilyn hynny, ailadroddodd:

“I would like to reassure the Committee no policy decisions will be made before further consultation and the use of these powers will require separate secondary legislation to take effect, giving the Assembly opportunity for proper scrutiny.”<sup>21</sup>

## 2. 3. Bil Amaethyddiaeth Cymru

**48.** Yn *Brexit a'n tir*, amlinellodd Llywodraeth Cymru ei bwriad i ddeddfu i gyflwyno Rhaglen Rheoli Tir newydd, a fydd yn disodli'r PAC yn ei gyfanrwydd:

“Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen dwyn deddfwriaeth sylfaenol gerbron i wneud darpariaeth ar gyfer y rhaglen [Rheoli Tir newydd arfaethedig]. Ein huchelgais yw sefydlu deddfwriaeth o'r fath cyn diwedd y Cynulliad hwn ac mewn da bryd i sicrhau bod y cyfnod pontio graddol yn gallu dod i rym.

---

<sup>19</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 330, 14 Tachwedd 2018

<sup>20</sup> [Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, dyddiedig 30 Hydref 2018](#)

<sup>21</sup> [Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, dyddiedig 21 Tachwedd 2018](#)

---

Hefyd, ac ar sail interim gyda chyfyngiad amser, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud yn benodol â Chymru ym Mil Amaethyddiaeth arfaethedig Llywodraeth y DU. Diben y darpariaethau fydd rhoi pwerau i Weinidogion Cymru allu cychwyn y cynllun pontio graddol tan y daw deddfwriaeth sylfaenol Gymreig i rym.”<sup>22</sup>

**49.** Mewn datganiad ysgrifenedig, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet ei bod wedi gofyn i Lywodraeth y Deyrnas Unedig gynnwys pwerau i Weinidogion Cymru ym Mil y Deyrnas Unedig:

“Pwerau dros dro yw'r pwerau sy'n cael eu cymryd i Weinidogion Cymru, tan llunio ein deddfwriaeth sylfaenol ein hunain, i gynllunio system ar gyfer Cymru sy'n gweithio dros amaethyddiaeth Cymru, diwydiannau gwledig a'n cymunedau. Mae'r darpariaethau ar gyfer Cymru wedi'u cynnwys mewn Atodlen ar wahân, fel bod modd i unrhyw newidiadau y mae'r Cynulliad Cenedlaethol am eu gweld i Weinidogion Cymru gael eu gwneud yn rhwydd.”<sup>23</sup>

**50.** Ers cyflwyno Bil y Deyrnas Unedig, mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi sicrhau nad oes unrhyw benderfyniad wedi cael ei wneud ar y pwerau “ddefnydd a phwrpas” a geisir.

## Tystiolaeth gan randdeiliaid

**51.** Roedd arwyddion cryf gan randdeiliaid eu bod yn derbyn darpariaethau Cymru, neu'n eu cefnogi, ar y sail y byddid yn dibynnu arnynt yn y tymor byr, hyd nes y byddai Bil Cynulliad yn cael ei gyflwyno.

**52.** Cefnogodd TFA Cymru ddefnyddio Bil y Deyrnas Unedig “tra bod Llywodraeth Cymru yn paratoi i gyflwyno ei deddfwriaeth ei hun i weithredu polisi newydd ar gyfer amaethyddiaeth yng Nghymru yn y cyfnod ar ôl Brexit”. Ceisiodd sicrwydd y bydd “Llywodraeth Cymru yn cael digon o amser i gyflwyno'r ddeddfwriaeth 'wedi ei gwneud yng Nghymru' sydd ei hangen (deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth) unwaith y bydd y Bil Amaethyddiaeth wedi cwblhau ei gamau yn Senedd y Deyrnas Unedig”.<sup>24</sup>

---

<sup>22</sup> Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, *Brexit a'n tir: Sicrhau dyfodol ffermio Cymru, Gorffennaf 2018*

<sup>23</sup> Datganiad ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig - Cyflwyniad i Fil Amaethyddiaeth y Deyrnas Unedig, 12 Medi 2018

<sup>24</sup> Papur Tystiolaeth - TFA Cymru, 14 Tachwedd 2018



**53.** Dywedodd NFU Cymru, er ei fod yn cydnabod bod gwahodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig i ddeddfu mewn perthynas â Chymru yn y modd hwn yn “hwylus”:

“...it does unfortunately mean that the usual oversight and scrutiny of powers conferred on Welsh Ministers, via primary legislation, in what is an area of devolved competence, takes place not as might be expected at the Senedd, but at the Houses of Parliament.”<sup>25</sup>

**54.** Codwyd pwyntiau tebyg gan CLA, ac er ei fod yn cefnogi'r ymagwedd a gymerwyd yn fras, nododd bryder ynghylch diffyg mecanwaith ffurfiol i'r Cynulliad ddiwygio'r Bil, ac awgrymodd ei bod yn “annhebygol” y byddai Llywodraeth Cymru yn fodlon ceisio “unrhyw newid sylweddol”, o gofio ei bod yn rhan o ddrafftio'r darpariaethau.<sup>26</sup>

**55.** Er gwaethaf eu cefnogaeth i ddeddfu drwy Fil y Deyrnas Unedig, tynnodd cynrychiolwyr o'r sector amgylcheddol sylw at nifer o feysydd lle gellid gwneud gwelliannau i'r darpariaethau ar gyfer Cymru. Er enghraifft, cynnwys amcanion strategol sy'n cyd-fynd â deddfwriaeth bresennol Cymru. Awgrymwyd y dylid cynnwys darpariaethau o'r fath “pan gawn ni ddeddfwriaeth briodol yng Nghymru”<sup>27</sup>.

## Tystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet

**56.** Mewn gohebiaeth â'r Pwyllgor, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

“I confirm it is still my intention to bring forward an Agriculture (Wales) Bill to the Assembly but this is unlikely to be in place for 2020 because of the pressure on the legislative timetable.”<sup>28</sup>

**57.** Pan ofynnwyd wedyn a fyddai Bil Amaethyddiaeth Cymru wedi cwblhau ei daith drwy'r Cynulliad erbyn diwedd y Pumed Cynulliad, dywedodd:

“I've committed to doing that but, obviously, it will depend on a legislative slot and, obviously, there's a new Government coming in next week. But that's certainly always been my intention.”<sup>29</sup>

---

<sup>25</sup> Papur Tystiolaeth – NFU Cymru, 14 Tachwedd 2018

<sup>26</sup> Papur Tystiolaeth – CLA, 14 Tachwedd 2018

<sup>27</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 335, 14 Tachwedd 2018

<sup>28</sup> Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, dyddiedig 30 Hydref 2018

<sup>29</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 34, 6 Rhagfyr 2018

---

**58.** Pan holwyd pam nad oedd y Bil yn cynnwys cymal machlud, er mwyn adlewyrchu bwriad Llywodraeth Cymru i'r darpariaethau fod yn "rhai trosiannol nes cyflwynir deddfwriaeth sylfaenol", dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

"Given the level of uncertainty surrounding Brexit, I did not consider it appropriate to include an explicit sunset provision for these powers to be on the face of the Bill. The provisions in the UK Agriculture Bill are, therefore, not time limited. I can confirm that it is my intention for the powers to be transitional and superseded by a Wales Agriculture Bill at the appropriate time. I intend to bring forward a Wales Agriculture Bill before the end of the current Assembly term."<sup>30</sup>

## Ein barn ni

Yn y cyfnod yn union ar ôl Brexit, bydd angen deddfwriaeth er mwyn gallu parhau i ddarparu cymorth ariannol i'r sector o dan y cynlluniau PAC presennol. Heb ddeddfwriaeth, ni all cymorth ariannol barhau y tu hwnt i 2020. Bydd angen deddfwriaeth hefyd i ategu unrhyw bolisi amaethyddol newydd ar gyfer Cymru, gan gynnwys unrhyw system gymorth ariannol newydd. Mae'n amlwg, felly, bod deddfwriaeth yn angenrheidiol, nid yn ddewis.

Am dros 40 mlynedd, bydd ffermwyr wedi gweithredu o fewn amrywiadau gwahanol o'r PAC. Nid yw'n syndod, felly, fod hwn yn gyfnod o ansicrwydd mawr ar draws y sector.

Mae sicrhau bod parhad i'r sector yn y cyfnod yn union ar ôl Brexit yn gorfod bod yn flaenoriaeth yn awr. O'r herwydd, rydym yn cytuno bod achos dros ddefnyddio Bil y Deyrnas Unedig i ddeddfu ar gyfer y diben hwn. Rydym yn gobeithio y bydd deddfu i alluogi cymorth ariannol i barhau o dan y cynlluniau PAC presennol yn y cyfnod ôl-Brexit yn darparu rhywfaint o sicrwydd, o leiaf.

Er bod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn esbonio rhesymau Llywodraeth Cymru dros gynnwys y darpariaethau ym Mil yn y Deyrnas Unedig, nid oes esboniad o'r bwriadau polisi na sut a phryd bydd y pwerau'n cael eu defnyddio. Mae hyn oherwydd nad oes unrhyw benderfyniad polisi wedi ei wneud, fel y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi ei honni sawl gwaith. At hynny, mae hi wedi egluro na fydd penderfyniadau o'r fath yn cael eu gwneud tan bydd canlyniad *Brexit a'n tir* yn hysbys, a chyn cyfnod pellach o ymgynghori. O

---

<sup>30</sup> Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, dyddiedig 30 Hydref 2018

ystyried hyn, nid yw'n bosibl asesu i ba raddau y bydd darpariaethau Cymru yn cyflawni bwriadau polisi Llywodraeth Cymru.

Mae gwendidau sylweddol yn gysylltiedig â defnyddio Bil y Deyrnas Unedig i ddeddfu i'r graddau y darperir ar ei gyfer yn Atodlen 3. Yn gyntaf ac yn bennaf, diffyg craffu gan y Cynulliad ar y darpariaethau. Nid ydym o'r farn bod gweithdrefnau craffu'r Cynulliad, a nodir yn Atodlen 3, yn ddigonol o ystyried natur y pwerau, ac nad ydynt yn ystyried y ffordd mae'r pwerau'n cael eu ceisio. Yn ogystal, nid yw Atodlen 3, fel y'i drafftaiwyd ar hyn o bryd, yn adlewyrchu'r ymagwedd ymgynghorol at ddeddfu y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'w chyflawni.

Mae'r darpariaethau ar gyfer Nghymru yn ymestyn y tu hwnt i alluogi parhad y polisi presennol yn y cyfnod yn union ar ôl Brexit. Maent yn darparu pwerau gweithredol helaeth a fydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno polisi amaethyddol newydd yng Nghymru: polisi sy'n dal ar gamau cynnar ei ddatblygiad, ac un a fydd yn llunio dyfodol amaethyddiaeth yng Nghymru am degawdau i ddod. Mae rôl y Cynulliad yn y penderfyniad hwn wedi ei gyfyngu i'r cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol sy'n gysylltiedig â'r Memorandwm y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef. Nid ydym o'r farn bod hyn yn briodol nac yn dderbyniol.

Rydym o'r farn fod achos cryf dros gynnwys mesurau diogelu ychwanegol yn Atodlen 3 i sicrhau bod y pwerau gweithredol yn cael eu harfer yn gymesur ac yn briodol gan Lywodraeth Cymru ar y pryd ac unrhyw Lywodraeth yng Nghymru yn y dyfodol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol o ystyried yr ansicrwydd ynghylch amseru unrhyw reoliad yn y dyfodol a Bil Amaethyddiaeth Cymru.

Honiad Llywodraeth Cymru yw mai'r bwriad yw i'r darpariaethau yn Atodlen 3 fod yn rhai "trosiannol" nes cyflwynir Bil Amaethyddiaeth Cymru. Fodd bynnag, nid oes unrhyw beth ym Mil y Deyrnas Unedig sy'n pennu y dylid cael cyfyngiad amser ar gyfer y darpariaethau. Er gwaethaf unrhyw ymrwymiad i'r gwrthwyneb, ni fydd unrhyw orfodaeth ar Lywodraeth bresennol Cymru, nac unrhyw Lywodraeth yn y dyfodol yng Nghymru, i gyflwyno Bil ar gyfer Cymru. Ar ben hynny, ni fydd angen Bil, gan y bydd yr holl bwerau sydd eu hangen i ddeddfu ar gyfer polisi amaethyddol a chymorth ariannol yn y dyfodol wedi eu rhoi i Weinidogion Cymru drwy Fil y Deyrnas Unedig.

Nid ydym yn amau bwriad yr Ysgrifennydd Cabinet i gadw at yr ymrwymadau a wnaeth i'r Pwyllgor hwn a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Serch hynny, ni ddylai cyfraith dda ddibynnu ar ewyllys da, ac nid yw'n dilyn bod ymrwymiad gan un llywodraeth yn cael ei anrhydeddu gan un arall.

Gellid dibynnu ar y pwerau gweithredol a ddarparwyd yn Atodlen 3 am gyfnod amhenodol, a gellid eu defnyddio i gyflwyno newidiadau sylfaenol a hirdymor i bolisi amaethyddol yng Nghymru, heb lawer o waith craffu yn y Cynulliad.

Mae'n amlwg mai Bil Cynulliad, wedi ei deilwra i ddiwallu anghenion penodol y sector amaethyddol yng Nghymru, fyddai dewis rhanddeiliaid. Rydym yn rhannu'r farn honno.

Rydym yn nodi ymrwymiad yr Ysgrifennydd Cabinet i gyflwyno Bil Amaethyddiaeth Cymru maes o law. Fodd bynnag, mae diffyg eglurder o hyd ynghylch a fydd y Bil hwnnw wedi cwblhau ei daith drwy'r Cynulliad cyn diwedd y Pumed Cynulliad. Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi dweud y bydd hyn yn dibynnu ar ddod o hyd i amser yn y rhaglen ddeddfwriaethol.

Nododd rhanddeiliaid ddisgwyliadau cryf y dylai darpariaethau o fewn unrhyw Fil Cynulliad yn y dyfodol fod yn sylweddol wahanol i'r rhai yn Atodlen 3. Disgwyliwn i Lywodraeth Cymru fyfyrion ar y dystiolaeth hon cyn cyflwyno ei phapur Gwyn yng ngwanwyn 2019.

**Casgliad 1.** Rydym o'r farn mai'r ffordd fwyaf priodol o ddeddfu ar bwnc mor arwyddocaol â dyfodol hirdymor amaethyddiaeth yng Nghymru yw Bil Cynulliad. Rydym o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru roi ymrwymiad y bydd amser ar gael yn y rhaglen ddeddfwriaethol i gyflwyno Bil Amaethyddiaeth Cymru a'i basio cyn diwedd tymor y Cynulliad hwn.

**Casgliad 2.** Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod angen deddfwriaeth yn y tymor byr, i barhau i roi cymorth ariannol i'r sector amaethyddiaeth yn syth ar ôl Brexit. O ystyried yr amser sydd ar gael, mae Bil y Deyrnas Unedig yn gerbyd priodol at y diben hwn. Ond, mae'r darpariaethau ym Mil y Deyrnas Unedig yn mynd ymhell y tu hwnt i sicrhau parhad uniongyrchol cymorth ariannol. Maent yn galluogi Gweinidogion Cymru i sefydlu ymagwedd hollol newydd at gymorth i amaethyddiaeth.

**Casgliad 3.** Rydym o'r farn bod darpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil yn anghytbwys. Maent yn rhoi pwerau sylweddol i Weinidogion Cymru ond nid ydynt yn rhoi unrhyw ddyletswydd arnynt. **Effaith y darpariaethau fydd cyfyngu'n ddifrifol ar allu'r Cynulliad i graffu ar gymorth Llywodraeth Cymru ar gyfer amaethyddiaeth, ar adeg pan fydd craffu effeithiol yn hanfodol i lwyddiant y polisiau newydd.** Nid yw hon yn ymagwedd dderbyniol, a dylai fod yn fater o

bryder difrifol i'r Cynulliad. Rydym o'r farn y dylid diwygio Atodlen 3 i gynnwys mesurau diogelu ychwanegol er mwyn sicrhau bod y pwerau gweithredol yn cael eu harfer yn gymesur ac yn briodol. Gallai hyn gynnwys gofyniad i Weinidogion Cymru ymgynghori cyn cyflwyno rheoliadau.

**Casgliad 4.** Addawodd Ysgrifennydd y Cabinet yn *Brexit a'n tir* bod y darpariaethau yn y Bil yn gyfystyr â threfniadau trosiannol a fydd yn "gyfyngedig o ran amser". Nid oes cyfyngiadau o'r fath wedi eu cynnwys ym Mil y Deyrnas Unedig, fel y'i drafftwyd. Rydym o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru geisio gwelliant i Fil y Deyrnas Unedig er mwyn cyflwyno "cymal machlud" mewn perthynas â darpariaethau Cymru.

**Casgliad 5.** Yn sgil digwyddiadau diweddar yn San Steffan, dylai Llywodraeth Cymru ystyried yr angen am fesurau wrth gefn priodol i sicrhau y gellir rhoi cymorth ariannol i'r sector amaethyddol yn syth ar ôl Brexit.

### 3. Gadael y Polisi Amaethyddol Cyffredin

**59.** Yn *Brexit a'n tir*, amlinellir cynnig Llywodraeth Cymru ar gyfer trosglwyddo oddi wrth system cymorth ariannol y PAC i system newydd, sy'n cynnwys dau gynllun: cynllun Nwyddau Cyhoeddus, a chynllun Cydnerthedd Economaidd. Disgrifiwyd hyn gan Lywodraeth Cymru fel "...newid digynsail mewn trefniadau cymorth".<sup>31</sup>

**60.** Yn ôl Llywodraeth Cymru, "bydd angen cwblhau dadansoddiad manwl" ar sut i ddirwyn taliadau uniongyrchol i ben, ond "mae opsiynau enghreifftiol yn cynnwys lleihau taliadau mewn termau absoliwt, yn ôl cyfran neu drwy newid cyfraddau capio". Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn nodi y bydd yn "archwilio cyfleoedd i leihau meysydd lle ceir cymhlethdod gweinyddol" sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Taliadau Sylfaenol cyfredol yn ystod Cyfnod 1.<sup>32</sup>

**61.** Yn *Brexit a'n tir*, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cyfnod pontio dros sawl blwyddyn na fyddai'n dechrau cyn 2020. Noda mai ei "huchelgais lefel-uchel yw bod wedi cwblhau'r broses o roi'r trefniadau newydd ar waith a bod y rhaglen newydd yn weithredol erbyn 2025".<sup>33</sup>

#### 3.1. Dirwyn taliadau uniongyrchol i ben a'u terfynu

**62.** Mae Rhan 2 o Atodlen 3 yn cynnwys darpariaethau a fydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddirwyn taliadau uniongyrchol y PAC i ben er mwyn paratoi ar gyfer cynlluniau cymorth ariannol newydd. Byddai hyn yn digwydd yn ystod y "cyfnod pontio amaethyddol", a ddiffinnir fel cyfnod o saith mlynedd yn dechrau yn 2021. Bydd yn rhaid terfynu taliadau uniongyrchol ar ddiwedd y cyfnod hwn. Fodd bynnag, mae darpariaeth i ymestyn y cyfnod pontio, os oes angen.

#### Tystiolaeth gan randdeiliaid

**63.** Roedd FUW a NFU Cymru yn gwrthwynebu'n chwyrn y cynnig i ddirwyn taliadau uniongyrchol i ben a'u terfynu yn y pen draw, yn enwedig o ystyried yr ansicrwydd sy'n deillio o Brexit a diffyg unrhyw asesiad o'r effaith y byddai hyn yn ei chael ar y sector yng Nghymru.

---

<sup>31</sup> Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, *Brexit a'n tir: Sicrhau dyfodol ffermio Cymru*, Gorffennaf 2018

<sup>32</sup> *ibid*

<sup>33</sup> *ibid*

**64.** Dywedodd NFU Cymru:

“At the present time we do not know how Welsh agriculture might fare as a result of Brexit...our view is that major policy decisions should not be taken until a much clearer picture of the post-Brexit economic landscape has emerged, with no policy options closed off.”<sup>34</sup>

**65.** Gwnaed pwyntiau tebyg gan TFA Cymru. Er ei fod yn cydnabod yr angen i'r sector ymateb i newid, dywedodd:

“...we need to be changing to something that is better not just different, and we're not yet convinced that we are going to be able to have something that is better, because we don't know the circumstances within which we're going to operate.”<sup>35</sup>

**66.** Pwysleisiodd CLA, o ystyried yr ansicrwydd parhaus ynghylch cytundebau masnach yn y dyfodol, bod y darpariaethau'n ymddangos yn “rhagataliol ac yn rhy ragnodol, ac nad oedd modd eu haddasu i'r materion ehangach, mwy sylfaenol a fydd yn effeithio ar y sector yn y tymor byr a'r hirdymor”.<sup>36</sup> Roedd gan Dr Nerys Llewellyn Jones “bryderon difrifol” hefyd am y cynnig i derfynu taliadau uniongyrchol, yn enwedig o ystyried yr ansicrwydd ynghylch cytundebau masnach yn y dyfodol.<sup>37</sup>

**67.** Mewn tystiolaeth i ymchwiliad y Pwyllgor ar y cynllun Nwyddau Cyhoeddus arfaethedig, nododd FUW fod y cynigion ar gyfer cynlluniau newydd yn *Brexit a'n tir* yn rhai, “heb eu profi, heb eu modelu a heb eu peilota”<sup>38</sup> a mynegodd bryder y byddai terfynu taliadau uniongyrchol yn “bygwth hyfywdra economaidd” llawer o ffermydd Cymru ac yn cael sgil effaith ar gymunedau gwledig<sup>39</sup>.

**68.** Yn ôl NFU Cymru, roedd taliadau uniongyrchol yn “rym hanfodol o ran darparu sefydlogrwydd” i'r sector.<sup>40</sup> Dywedodd na allai gefnogi dirwyn y taliadau uniongyrchol i ben:

“...until there is clear evidence that replacement scheme(s) can deliver at least the same level of stability for farming businesses, the food

---

<sup>34</sup> Papur Tystiolaeth – NFU Cymru, 14 Tachwedd 2018

<sup>35</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 224, 14 Tachwedd 2018

<sup>36</sup> Papur Tystiolaeth – CLA, 14 Tachwedd 2018

<sup>37</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 675, 14 Tachwedd 2018

<sup>38</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 153, 24 Hydref 2018

<sup>39</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 157, 24 Hydref 2018

<sup>40</sup> Papur Tystiolaeth – NFU Cymru, 14 Tachwedd 2018

supply chain and the rural communities that the BPS currently delivers.”<sup>41</sup>

**69.** Eglurodd Dr Petetin a Dr Dobbs fod “llawer o ffermydd Cymru ar hyn o bryd yn broffidiol dim ond oherwydd taliadau uniongyrchol y PAC” ac mai “gallu cyfyngedig” fyddai ganddynt i addasu i’r newidiadau arfaethedig mewn cymorth. Dywedodd y ddwy:

“It is likely that at least the bottom 30% of Welsh farms that struggle or only survive because of the receipt of BPS could disappear...The loss of a huge number of farms following such radical changes could be highly consequential to the Welsh farming countryside, rural areas and Wales.”<sup>42</sup>

**70.** Nododd CLA fod y darpariaethau ym Mil y Deyrnas Unedig “yn adlewyrchu’r penderfyniadau yn Lloegr yn dilyn ymgynghoriad ‘Health and Harmony’ DEFRA”,<sup>43</sup> a oedd wedi cynnwys cynigion manylach ar gyfer lleihau taliadau uniongyrchol. Fel y cyfryw, dywedodd CLA:

“...bringing this legislation out without having that consultation in Wales, about the financial impact [of phasing out direct payments], has caused more concern than they’ve seen in England...”<sup>44</sup>

## Tystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet

**71.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet yn y Cyfarfod Llawn ar 28 Tachwedd:

“...rwyf wedi egluro ar sawl achlysur cyn, yn ystod ac ers ein hymgynghoriad ‘Brexit a’n tir’, fel y mae’r Prif Weinidog wedi’i wneud, nad cynllun y taliad sylfaenol yw’r ffordd iawn o gefnogi ffermwyr ar ôl Brexit... Nid yw taliadau uniongyrchol yn arf digon miniog i ddatblygu sector amaethyddiaeth cynhyrchiol a chystadleuol. Nid ydynt yn cymell gwelliannau o ran cynhyrchiant, ac nid ydynt yn caniatáu hyblygrwydd i ffermwyr ymateb i anwadalrwydd. Nid oes cysylltiad o gwbl rhwng cynllun y taliad sylfaenol a chynhyrchiant, ymdrech ffermwyr na

---

<sup>41</sup> Papur Tystiolaeth – NFU Cymru, 14 Tachwedd 2018

<sup>42</sup> Papur Tystiolaeth – Dr Petetin a Dr Dobbs, 14 Tachwedd 2018

<sup>43</sup> Papur Tystiolaeth – CLA, 14 Tachwedd 2018

<sup>44</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 223, 14 Tachwedd 2018



chanlyniadau ar lawr gwlad. Rhaid inni gefnogi ffermwyr mewn ffordd well.”<sup>45</sup>

### 3. 2. Datgysylltu

**72.** Mae Rhan 2 o Atodlen 3 yn caniatáu “datgysylltu” taliadau o’r gofyniad i ffermio yn ystod y cyfnod pontio, gan ddileu’r amod “ffermwr gweithredol”. Mae’n caniatáu i’r taliadau hyn gael eu gwneud mewn cyfandaliad, a fyddai’n caniatáu i ffermwyr fuddsoddi yn eu busnes, arallgyfeirio neu ymddeol o ffermio.

#### Tystiolaeth gan randdeiliaid

**73.** Prin oedd y rhanddeiliaid a wnaeth sylwadau penodol ar y darpariaethau mewn perthynas â datgysylltu taliadau. Roedd TFA Cymru yn siomedig nad oedd y dewisiadau ar gyfer datgysylltu taliadau wedi cael eu hystyried yn *Brexit a’n tir*, ond mynegodd gefnogaeth i’r ymagwedd mewn egwyddor:

“...it will be of significant assistance to progress restructuring within the industry allowing individuals to use both de-linked payments as consolidated payments to retire from the industry or invest in their businesses or to invest in other economic activities either on their holdings or off their holdings.”<sup>46</sup>

**74.** Gwnaed pwyntiau tebyg gan CLA, a gyfeiriodd at y darpariaethau datgysylltu fel “un o’r darpariaethau mwyaf radical yn y Bil”.<sup>47</sup> Awgrymodd y byddai taliadau datgysylltu yn darparu’r dewis i ffermwyr sy’n dymuno gadael y diwydiant wneud hynny, ac “yn ddamcaniaethol, creu cyfleoedd yn sgil hynny i bobl newydd i’r diwydiant a rhai sydd am ehangu”.<sup>48</sup>

**75.** Fel TFA Cymru, tynnodd sylw at y diffyg manylion am y cynigion, gan nodi “unwaith eto, nid yw hon yn sgwrs a ystyriwyd yn fanwl o ran ei hoblygiadau i Gymru”.<sup>49</sup> Er bod CLA yn awgrymu bod datgysylltu yn “annhebygol” o effeithio ar werth tir, awgrymodd y gallai effaith rhenti fod “yn fwy sylweddol”, a phwysleisiodd yr angen am “amodau a mesurau diogelu” priodol.<sup>50</sup>

---

<sup>45</sup> Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, paragraff 346, 28 Tachwedd 2018

<sup>46</sup> Papur Tystiolaeth – TFA Cymru, 14 Tachwedd 2018

<sup>47</sup> Papur Tystiolaeth – CLA, 14 Tachwedd 2018

<sup>48</sup> ibid

<sup>49</sup> ibid

<sup>50</sup> ibid

## Ein barn ni

Am dros bedwar degawd, penderfynwyd polisi amaethyddol yn bennaf ar lefel yr Undeb Ewropeaidd. Gan hynny, mae Brexit yn gyfle i Lywodraeth Cymru ailystyried y ffordd y cefnogir y sector amaethyddiaeth yng Nghymru.

Yn ein hadroddiad, Dyfodol rheoli tir yng Nghymru, fe wnaethom ystyried cymorth ariannol yn y dyfodol i ffermwyr Cymru ar ôl i'r Deyrnas Unedig ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Daethom i'r casgliad y dylai Llywodraeth Cymru archwilio'r posibilrwydd o gyflwyno mecanweithiau cymorth sy'n sail i gynhyrchu bwyd o safon uchel a sicrhau canlyniadau cynaliadwy.

Ar y pwynt hwn, nid yw graddfa a natur effaith Brexit ar y sector yn hysbys. Bydd yn dibynnu ar nifer o ffactorau, yn enwedig cytundebau masnachu yn y dyfodol gyda'r Undeb Ewropeaidd a gweddill y byd. Mae'n ddealladwy, felly, fod llawer o randdeiliaid wedi holi pam mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithredu "newid digyffelyb mewn trefniadau cymorth" ar hyn o bryd.

Mae gwahanol farn ymysg rhanddeiliaid, ac yn wir, ar draws y Cynulliad hwn, ynghylch y ffordd orau o gynorthwyo'r sector amaethyddol yng Nghymru yn y dyfodol. Ond nid diben yr adroddiad hwn yw gwyntyllu'r dadleuon o blaid ac yn erbyn taliadau uniongyrchol. Yn lle hynny, mae ein hadroddiad yn canolbwyntio ar a yw'n briodol ac yn gymesur i Lywodraeth Cymru geisio pwerau, drwy Fil y Deyrnas Unedig, a fydd yn galluogi'r Llywodraeth, ymhlith pethau eraill, i ddisodli'r system gymorth ariannol bresennol gyda system newydd.

Fel y nodir ym Mhennod 2, rydym yn cytuno bod achos dros ddefnyddio Bil y Deyrnas Unedig i ddeddfu i sicrhau parhad ar gyfer y sector yn y cyfnod yn union ar ôl Brexit.

Mae Rhan 2 o Atodlen 3 yn darparu pwerau dirprwyedig helaeth, yn fwyaf nodedig pwerau gwneud rheoliadau i ddirwyn taliadau uniongyrchol i ben ac i ddatgysylltu taliadau oddi wrth gynhyrchu. Rydym yn pryderu nad yw Llywodraeth Cymru wedi ymgymryd â gwaith hyd yn hyn i asesu effaith y cynigion hyn ar y sector. Rydym o'r farn y dylai penderfyniadau polisi fel hyn gael ei lywio gan asesiad effaith manwl.

**Casgliad 6.** Mae hwn yn gyfnod o ansicrwydd sylweddol i'r sector amaeth yng Nghymru. Rydym yn cydnabod pam mae'r sector wedi ymateb yn bryderus i'r cynigion i ddirwyn taliadau uniongyrchol i ben. O ystyried yr amser sydd ar gael, rydym yn cefnogi cynnwys darpariaethau ym Mil y Deyrnas Unedig i barhau â

thaliadau uniongyrchol yn syth ar ôl Brexit. Rydym o'r farn y bydd hyn yn rhoi sicrwydd i'r sector.

**Casgliad 7.** Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi dweud na fydd unrhyw benderfyniad polisi yn cael ei gymryd nes bydd canlyniadau ymgynghoriad *Brexit a'n tir* yn hysbys. Mae Ysgrifennydd y Cabinet hefyd wedi dweud ei bod hi'n bwriadu dirwyn taliadau uniongyrchol i ben. Nid yw'r ddau safbwynt hyn yn gydnaws.

**Casgliad 8.** Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cynnal asesiad o effaith dirwyn taliadau uniongyrchol i ben. Rydym o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru roi ymrwymiad i beidio â dechrau dirwyn taliadau uniongyrchol i ben nes daw'r amser y bydd wedi cwblhau a chyhoeddi asesiad effaith manwl ar draws y sector.

**Casgliad 9.** Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn am gynnwys pwerau gweithredol eraill o dan Ran 2 o Atodlen 3. Er enghraifft, y darpariaethau sy'n ymwneud â thaliadau wedi eu datgysylltu. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi darparu gwybodaeth i'r Cynulliad ynghylch sut mae'n bwriadu defnyddio'r pwerau hyn, pe bai'r Cynulliad yn rhoi caniatâd. Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut mae'n bwriadu defnyddio'r pwerau hyn.

## 4. Trosglwyddo i system gymorth newydd

**76.** Waeth beth oedd eu safbwynt cyffredinol ar y cynnig i derfynu taliadau uniongyrchol, rhybuddiodd cynrychiolwyr y sector amaethyddol na ddylid rhuthro i ddechrau'r cyfnod pontio. Pwysleisiwyd yr heriau ymarferol i Lywodraeth Cymru, asiantaethau perthnasol a'r sector ei hun wrth symud i system newydd o gymorth ariannol.

**77.** Mewn cyferbyniad, roedd cynrychiolwyr y sector amgylcheddol yn awyddus i'r trosglwyddiad i'r cynlluniau newydd arfaethedig ddechrau cyn gynted ag y bo modd. Pwysleisiwyd yr angen am gamau cyflym i fynd i'r afael â'r dirywiad cyflym mewn bioamrywiaeth.

### 4. 1. Hyd y cyfnod pontio

**78.** Nododd sawl cynrychiolydd o'r sector amaethyddol yr anghysondeb rhwng cyfnod pontio arfaethedig Llywodraeth Cymru, sef 2020 i 2025, a nodir yn *Brexit a'n tir*, a'r "cyfnod pontio amaethyddol" o saith mlynedd y darperir ar ei gyfer yn Rhan 2 o Atodlen 3. Dywedodd CLA fod yr anghysondeb "wedi creu ansicrwydd a dryswch".<sup>51</sup>

**79.** Roedd consensws eang ymhlith cynrychiolwyr y sector amaethyddol fod y cyfnod pontio arfaethedig o bum mlynedd, gan ddechrau yn 2020, yn rhy uchelgeisiol ac o bosibl yn broblemus. Dywedodd CLA:

"...we shouldn't underestimate the need for the civil service, stakeholders and administrators of the scheme also to transition and learn and adapt...It's very easy to say, 'The industry doesn't react well to change; it takes longer and we're asking for too long a transition period', but, actually, it's not a one-way process...The civil service isn't a quick ship to turn, and if we are going to build systems, build IT structures that need time, and things that govern and work well, we shouldn't just be looking in one direction for that answer."<sup>52</sup>

**80.** Mynegodd NFU Cymru a TFA Cymru ffafriaeth glir i gyfnod pontio o saith mlynedd, gan groesawu'r pŵer i Weinidogion Cymru ymestyn y cyfnod.

---

<sup>51</sup> Papur Tystiolaeth – CLA, 14 Tachwedd 2018

<sup>52</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 235, 14 Tachwedd 2018

**81.** Ar y llaw arall, roedd Nature Friendly Farming yn ffafrio cyfnod pontio byrrach, fel y nodir yn *Brexit a'n tir*. Dywedodd:

“A key consideration however, is that we don’t delay transition so long that it’s too late to reverse wildlife decline and address environmental issues in time to meet legal obligations.”<sup>53</sup>

**82.** Nododd y gallai'r pŵer sydd gan Weinidogion Cymru i ymestyn y cyfnod pontio (Rhan 2, paragraff 5(2)) olygu y byddai “cyfnod trosiannol diddiwedd”.<sup>54</sup>

## 4. 2. Modelu a threialu

**83.** Mewn tystiolaeth i ymchwiliad y Pwyllgor hwn i'r cynllun Nwyddau Cyhoeddus arfaethedig, cododd FUW bryder nad oedd gwaith modelu manwl o'r cynigion a nodwyd yn *Brexit a'n tir* wedi cael ei gynnal eto. Mewn cymhariaeth, cynhaliwyd gwaith modelu helaeth ar gyfer cynigion blaenorol cynlluniau PAC. Roedd hyn wedi cynnwys asesiad o'r effaith ar fusnesau unigol ac ar wahanol leoliadau daearyddol.

**84.** Amlygodd nifer o dystion yr angen i sefydlu cynlluniau peilot cyn gynted ag y bo modd er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu a gweithredu'r cynllun Nwyddau Cyhoeddus arfaethedig.

**85.** Holodd NFU ac FUW a oedd digon o allu gweinyddol ac ymgynghorol i gyflawni'r cynllun Nwyddau Cyhoeddus arfaethedig yn yr amser sydd ar gael, yn enwedig o gofio nifer y ceisiadau a ragwelir.

## Tystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet

**86.** Ar 26 Tachwedd, cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai'r Cynllun Taliad Sylfaenol yn parhau'n ddigyfnewid yn 2020 “i gynorthwyo ffermwyr o Gymru i newid i Raglen Rheoli Tir newydd wedi Brexit”. Dywedodd:

“Dwi'n sylweddoli bod hwn yn newid mawr i'r sector yn ystod cyfnod ansicr. Mae'r cyfnod pontio yn hynod bwysig a dyma pam yr wyf heddiw yn cyhoeddi'r Cynllun Taliad Sylfaenol fydd yn parhau heb newid am flwyddyn arall yn 2020 i roi sicrwydd ac i helpu ffermwyr newid yn ddidrafferth i'r Rhaglen Rheoli Tir newydd.”

---

<sup>53</sup> Papur Tystiolaeth – Nature Friendly farming Network Wales, 14 Tachwedd 2018

<sup>54</sup> *ibid*

Bydd yr estyniad hwn yn sicrhau bod gan ffermwyr ddigon o amser i baratoi ac addasu i'r dull newydd hwn. Bydd yn sicrhau newid dros sawl blwyddyn, wedi'i reoli ac yn cyflawni ein hymrwymiad na fydd cynlluniau presennol yn cael eu dileu tan bod y cynlluniau newydd yn barod.”<sup>55</sup>

**87.** Yn dilyn hynny, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei bod yn “bwriadu ymestyn llawer o’r contractau Glastir presennol am gyfnod cyfyngedig, yn amodol ar gytundeb y Comisiwn Ewropeaidd”.<sup>56</sup>

**88.** Pan ofynnwyd iddi a oedd hi’n hyderus y byddai Llywodraeth Cymru a’r sector yn barod i ddechrau’r cyfnod pontio yn 2020-21, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

“...we’ve made it very clear about the transition period, how long that will be. We consulted on 2020 to 2025. I gave the assurance about the basic payment schemes for another year to 2020, because I absolutely appreciate it’s such an uncertain time...I think we will be ready, but it is a big ask, obviously.”<sup>57</sup>

**89.** Ychwanegodd ei swyddog:

“...there won’t be significant change in 2020. The change in 2021 would be gradual, relatively small scale. So, the things that people would need to adapt to early are likely to be relatively few, and the change increases over the following year. So, I think, thinking of 2020-21 as a sort of cliff-edge, single change moment isn’t the right way to approach it. This is the beginning of a transition period.”<sup>58</sup>

**90.** Cydnabu Ysgrifennydd y Cabinet y gallai gwahaniaethau yn y gyfradd trosglwyddo yng Nghymru a Lloegr arwain at oblygiadau i ffermydd trawsffiniol a marchnad fewnol y Deyrnas Unedig.<sup>59</sup> Fodd bynnag, awgrymodd fod hyn, yn rhannol, yn ganlyniad i ddatganoli. Aeth ei swyddog ymlaen i esbonio y gellid rheoli’r materion hyn drwy fframwaith cyffredin ar gyfer amaethyddiaeth y Deyrnas Unedig, gan ddweud:

---

<sup>55</sup> [Datganiad i'r Wasg Llywodraeth Cymru, 26 Tachwedd 2018](#)

<sup>56</sup> Cyfarfod Llawn, paragraff 350, 28 Tachwedd 2018

<sup>57</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 50, 6 Rhagfyr 2018

<sup>58</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 51, 6 Rhagfyr 2018

<sup>59</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 55, 6 Rhagfyr 2018

“I think a lot of those things are not actually legislative issues. They’re about ways of working between the four administrations, reflecting where we are with the inter-governmental agreement. So, the issues that will need to be addressed in the framework don’t need to be tackled in legislation because they’re not legislative issues; they’re about how we work together.”<sup>60</sup>

**91.** Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai’r gwaith modelu yn cael ei gwblhau cyn cyhoeddi’r Papur Gwyn, y mae disgwyl iddo gael ei gyhoeddi yng ngwanwyn 2019. Eglurodd ei swyddog:

“...we will be looking both at the whole-of-Wales level, but also wanting to work with a number of individual farm businesses, looking very closely and working with them around their farm business accounts, and so on, to think what would this mean for this farm...and looking at a representative sample of different sectors, different areas of Wales, to be able to look both at the macro, whole-of-Wales level, and then what might this mean for different types of business, different scales of business, different sectors, so that we get as rich a picture as we can of those impacts...”<sup>61</sup>

## Ein barn ni

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi penderfynu eto ar y system cymorth ariannol newydd, manylion y cynlluniau newydd, na sut a phryd y byddant yn cael eu gweithredu. Y cyfan rydym yn ei wybod yn bendant, yn seiliedig ar y cynigion a nodir yn *Brexit a’n tir*, yw y bydd symud i’r system newydd yn golygu “newid digynsail” ar gyfer y sector amaethyddol, ac y bydd yn ymgymeriad sylweddol i’r Llywodraeth a’i hasiantaethau.

Bydd angen cyflwyno’r cynlluniau newydd ar raddfa nad ymdrechwyd yn ddiweddar. Mae’r her hon yn fwy byth os yw’r Llywodraeth am gwrdd â’i huchelgais o gwblhau’r broses o drosglwyddo i’r system newydd, a gorffen taliadau uniongyrchol yn gyfan gwbl, erbyn 2025.

Ni fu unrhyw asesiad o nifer posibl yr ymgeiswyr ar gyfer y cynlluniau newydd. Fodd bynnag, os yw ffermwyr sydd ar hyn o bryd yn dibynnu ar daliadau uniongyrchol fel ffynhonnell incwm yn ceisio cael mynediad at y cynlluniau, bydd y niferoedd yn uchel. Yn ychwanegol at hyn, nodwn y byddai’r cynlluniau

---

<sup>60</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 61, 6 Rhagfyr 2018

<sup>61</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 83, 6 Rhagfyr 2018

newydd arfaethedig yn hygyrch i amrywiaeth ehangach o dderbynwyr na'r cynlluniau cyfredol. Nid yw goblygiadau hyn ar nifer yr ymgeiswyr yn hysbys. Rydym yn ystyried ehangder y derbynwyr yn fanylach ym Mhennod 5.

Rydym eisoes wedi nodi ein barn ar ddeddfu ar gyfer newid ar adeg o ansicrwydd nas gwelwyd o'r blaen. Beth bynnag fo'r amseru, mae'n hanfodol nad yw newid o'r math hwn ac ar y fath raddfa yn dechrau nes bod y gwaith paratoadol angenrheidiol wedi ei gwblhau, a bod effaith y newid wedi ei ddeall yn llawn.

Er bod cynnig y Llywodraeth ar gyfer cyfnod pontio dros sawl blwyddyn, mae'n wir y bydd angen gwneud gwaith helaeth cyn y cyfnod pontio. Yn ein hadroddiad ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2019-20, fe wnaethom amlinellu ein pryderon ynghylch diffyg cynlluniau paratoi clir ar gyfer trosglwyddo o'r cynlluniau PAC presennol i'r cynlluniau newydd arfaethedig. Daethom i'r casgliad y bydd angen ymgymryd â modelu manwl, asesiadau effaith a sefydlu cynlluniau peilot er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu a gweithredu'r cynlluniau newydd arfaethedig. Amlygodd tystiolaeth i'n hymchwiliad ar y cynllun Nwyddau Cyhoeddus arfaethedig y dasg sylweddol o ddatblygu cynllun sy'n addas i weithredu ar raddfa genedlaethol. Mae hyn yn cynnwys: pennu canlyniadau amgylcheddol, diffinio dangosyddion canlyniadau, a phenderfynu ar gyfraddau a throthwyon taliadau.

Yn *Brexit a'n tir*, dywedodd Llywodraeth Cymru mai ei huchelgais oedd i'r cyfnod pontio ddechrau yn 2020. Fodd bynnag, mae Rhan 2 o Atodlen 3 yn darparu ar gyfer dechrau'r cyfnod pontio ddim cynharach na 2021. O ystyried y cyhoeddiad diweddar na fydd y Cynllun Taliad Sylfaenol yn newid yn 2020, rydym yn ceisio eglurder gan Lywodraeth Cymru ar ba bryd y bydd y cyfnod pontio yn dechrau, ac ar ba pha ffurf y bydd hyn yn digwydd.

Rydym yn nodi bod Rhan 2 o Atodlen 3 yn darparu ar gyfer cyfnod pontio saith mlynedd o 2021 i 2028. Gellir ymestyn y cyfnod hwn, yn amodol ar gytundeb y Cynulliad, a chroesawn yr hyblygrwydd y mae hyn yn ei ddarparu. Rydym yn cydnabod yr angen am newid, ac am gamau cyflym i adfer yr amgylchedd naturiol. Fodd bynnag, nid ydym wedi ein hargyhoeddi o hyd bod uchelgais Llywodraeth Cymru ar gyfer cwblhau'r trosglwyddo erbyn 2025 yn gyraeddadwy.

Rydym yn pryderu bod cyflymder y newid o fewn yr amserlen hon yn peri risg sylweddol i'r sector amaethyddiaeth. Yn ychwanegol at hyn, nodwn fod cynigion terfynol Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cynnwys cyfnod pontio hirach yn Lloegr, gyda disgwyl i gynlluniau newydd gael eu gweithredu'n llawn yn 2028.



**Casgliad 10.** Nid yw Llywodraeth Cymru wedi rhoi eglurder i'r Cynulliad ynglŷn â'r man cychwyn na'r amserlen ar gyfer pontio o'r trefniadau presennol i gynlluniau yn y dyfodol. Yn *Brexit a'n tir*, dywedodd Llywodraeth Cymru mai ei huchelgais oedd i'r cyfnod pontio ddechrau yn 2020 a chael ei gwblhau erbyn 2025. Yn fwy diweddar, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai taliadau uniongyrchol yn cael eu gwneud, heb eu newid, ar gyfer blwyddyn dalu 2020 y PAC. Rydym o'r farn bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru egluro ei bwriadau mewn perthynas â phryd bydd y cyfnod pontio yn dechrau a beth fydd hynny'n ei olygu i'r sector yn ymarferol.

**Casgliad 11.** Pa un ai a yw'n dymuno dechrau pontio yn 2020, 2021 neu, yn wir, yn ddiweddarach, mae Llywodraeth Cymru yn wynebu heriau sylweddol, o gofio y bydd angen ymgymryd â gwaith modelu manwl, asesiadau effaith a sefydlu cynlluniau peilot yn gyntaf i lywio'r gwaith o ddatblygu a gweithredu'r cynlluniau newydd. Rydym o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru roi ymrwymiad na fydd y broses o drosglwyddo i gynlluniau newydd yn dechrau nes i'r gwaith hwn gael ei gwblhau.

## 5. System newydd o gymorth ariannol

**92.** Mae Rhan 1 o Atodlen 3 yn caniatáu sefydlu a gweithredu cynlluniau talu newydd i gymryd lle'r cynlluniau PAC presennol. Mae Rhan 1:

- yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddarparu cymorth ariannol ar gyfer, neu mewn cysylltiad ag, amrywiaeth o ddibenion gyda'r nod o ddarparu buddion cyhoeddus. Mae'n bosibl y bydd cymorth ariannol hefyd yn cael ei roi i gynorthwyo busnesau, cymunedau gwledig, a'r gadwyn gyflenwi amaethyddol, arddwriaethol a choedwigaeth;
- yn nodi sut gellir gweinyddu'r cynlluniau cymorth ariannol newydd; ac
- yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth ar gyfer monitro, gwirio a gorfodi amodau mewn perthynas â'r cynlluniau cymorth ariannol newydd.

**93.** Fel y disgrifiwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, mae ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, *Brexit a'n tir*, yn nodi ei chynigion ar gyfer cynllun Nwyddau Cyhoeddus a chynllun Cydnerthedd Economaidd. Roedd y cynigion yn dal i fod yn destun ymgynghoriad pan gyflwynwyd Bil y Deyrnas Unedig. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 30 Hydref a chyflwynwyd tua 12,000 o ymatebion. Ar yr adeg y cytunwyd ar yr adroddiad hwn, nid oedd Llywodraeth Cymru wedi ymateb i'r ymgynghoriad.

### 5. 1. Y dibenion y gellir rhoi cymorth ariannol ar eu cyfer

**94.** Yn Rhan 1, paragraff 1, nodir y dibenion y gellir rhoi cymorth ariannol ar eu cyfer. Maent yn eang iawn<sup>62</sup> ac nid ydynt yn cynnwys unrhyw ddiffiniad nac esboniad.

**95.** Mae'r dibenion yn ymestyn y tu hwnt i'r rhai a gynhwysir yn y ddarpariaeth gyfatebol yn Lloegr, ac maent yn cynnwys: cynorthwyo busnesau neu gymunedau mewn ardaloedd gwledig; a chynorthwyo phobl sy'n ymwneud â chynhyrchu, prosesu, marchnata neu ddsbarthu cynhyrchion sy'n deillio o weithgarwch amaethyddol, garddwriaethol neu goedwigaeth.

---

<sup>62</sup> Er enghraifft, rheoli tir neu ddŵr mewn ffordd sy'n gwella'r amgylchedd; cefnogi mynediad i'r cyhoedd a mwynhau cefn gwlad, tir fferm neu goetir a gwell dealltwriaeth o'r amgylchedd; a dechrau neu wella cynhyrchiant gweithgarwch amaethyddol, garddwriaethol neu goedwigaeth.

## Tystiolaeth gan randdeiliaid

**96.** Croesawodd Dr Petetin a Dr Dobbs y symud tuag at gynllun Nwyddau Cyhoeddus. Fodd bynnag, dywedodd y ddwy:

“...it is important that the Agriculture Bill [and the policy proposals set out in Brexit and our land] be expanded to facilitate the support of public goods beyond those cited. It is the opportunity for both documents to embrace forward-looking, ‘outside the box’ policies that reflect current and future needs.”<sup>63</sup>

**97.** Amlygodd Dr Petetin a Dr Dobbs “fylchau amlwg” yn y rhestr o ddibenion a nodir ym mharagraff 1(1), gan ddweud eu bod o’r farn bod “llawer mwy o le i gynnwys amrywiaeth llawer ehangach o amcanion gwerthfawr”. Er enghraifft, gwella cynefinoedd a bywyd gwylt, hyrwyddo cymunedau gwledig, hybu ansawdd bwyd ac iechyd y cyhoedd a gwella lles anifeiliaid.<sup>64</sup>

**98.** Galwodd TFA Cymru am weld “amddiffyn neu wella iechyd, llesiant a diogelwch bwyd” a “diogelu neu wella rheolaeth tirweddau ucheldirol a bioamrywiaeth drwy systemau pori da byw” ar y rhestr o ddibenion ym mharagraff 1(1).<sup>65</sup>

**99.** Croesawodd FUW y pwerau cymorth ariannol newydd “ar yr wyneb”.<sup>66</sup> Fodd bynnag, cyfeiriodd at y “gwahaniaethau sylweddol”<sup>67</sup> rhwng y “nwyddau cyhoeddus” y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu cynorthwyo, a nodir yn *Brexit a’n tir*, a’r dibenion a gynhwysir yn Rhan 1, paragraff 1(1).

**100.** Rhoddodd NFU Cymru groeso penodol i’r pŵer newydd i ddarparu cymorth ariannol i gynorthwyo busnesau, cymunedau gwledig, a’r gadwyn gyflenwi amaethyddol, garddwriaethol a choedwigaeth o ran cynhyrchiant (Rhan 1, paragraff 1(2)).<sup>68</sup> Mynegwyd barn debyg gan TFA Cymru.<sup>69</sup>

**101.** Roedd CLA o’r farn bod y pwerau cymorth ariannol newydd “yn darparu’r fframwaith angenrheidiol” i ddatblygu’r cynlluniau newydd arfaethedig. Fodd bynnag, awgrymodd y dylai’r dibenion ym mharagraff 1 gael eu hystyried “yng

---

<sup>63</sup> Papur Tystiolaeth – Dr Petetin a Dr Dobbs, 14 Tachwedd 2018

<sup>64</sup> *ibid*

<sup>65</sup> Papur Tystiolaeth – TFA Cymru, 14 Tachwedd 2018

<sup>66</sup> Papur Tystiolaeth – FUW, 14 Tachwedd 2018

<sup>67</sup> *ibid*

<sup>68</sup> Papur Tystiolaeth – NFU Cymru, 14 Tachwedd 2018

<sup>69</sup> Papur Tystiolaeth – TFA Cymru. 14 Tachwedd 2018

nghyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a'r prawf a nodir ynddi".<sup>70</sup>

## Tystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet

**102.** Wrth roi sylwadau ar y dibenion y gellir rhoi cymorth ariannol ar eu cyfer, a sut a phryd mae Ysgrifennydd y Cabinet yn bwriadu defnyddio'r pwerau, dywedodd:

"The purposes for which Welsh Ministers will be able to give financial assistance are designed to be non-limiting in their scope and no decisions have yet been taken on the use and purpose of the powers. This will very much be dependent on the consultation outcomes and on the UK's future relationship with the EU and rest of the world."<sup>71</sup>

**103.** Pan holwyd hi am y pryderon a godwyd ynghylch bylchau posibl yn y dibenion, fel y'u drafftwyd, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

"I'm not aware of any gaps, because what the Bill does is confer very wide powers in respect of financial support. So, from our point of view, any concerns that stakeholders have, we would work with them, as we work up the schemes..."<sup>72</sup>

**104.** Wrth egluro pam roedd y pŵer i ddarparu cymorth ariannol yn bŵer gweithredol anneddfwriaethol, dywedodd:

"Because we've made no policy decisions, I thought it appropriate to take a neutral assumption and mirror England's approach on this. But, as I've said, these powers are transitional, they're temporary, and I will ensure that the Assembly has full opportunity to scrutinise the Welsh agricultural Bill when we bring that forward."<sup>73</sup>

**105.** Mewn ymateb i gwestiwn am yr hyn y byddai Llywodraeth Cymru yn ei wneud pe bai gwaith modelu ac asesu effaith yn dangos nad oedd y cynigion yn effeithiol, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

---

<sup>70</sup> Papur Tystiolaeth – CLA, 14 Tachwedd 2018

<sup>71</sup> [Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, dyddiedig 30 Hydref 2018](#)

<sup>72</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 116, 6 Rhagfyr 2018

<sup>73</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 132, 6 Rhagfyr 2018

“So, we need to do that ahead of the White Paper and then...if we think those two models don’t [work], we can look at how we can do different schemes or how, within those two schemes that we’ve got, we can change things. We’ve got to be flexible.”<sup>74</sup>

## 5. 2. Mynediad ac ehangder y derbynwyr

**106.** Mae paragraff 1 o Ran 1 yn nodi’r dibenion y gellir rhoi cymorth ariannol ar eu cyfer. Nid yw’n diffinio’r sawl a fyddai’n gymwys i dderbyn cymorth ariannol.

**107.** Yn y Nodiadau Esboniadol ar gyfer Bil y Deyrnas Unedig nodir y gellir rhoi cymorth ariannol “i fuddiolwyr, gan gynnwys ffermwyr, coedwigwyr, neu’r rhai sy’n gyfrifol am reoli’r tir, ond heb fod yn gyfyngedig i’r buddiolwyr hynny”.<sup>75</sup> Nid yw hyn wedi ei bennu yn y darpariaethau ar gyfer Cymru neu Loegr.

### Tystiolaeth gan randdeiliaid

**108.** Roedd barn gymysg ymhlith rhanddeiliaid ynghylch y sawl a ddylai fod yn gymwys i dderbyn cymorth ariannol. Ar y cyfan, roedd cynrychiolwyr y sector amaethyddol o’r farn y dylid cyfyngu cymorth ariannol i “ffermwyr gweithredol”, fel sy’n wir ar hyn o bryd o ran taliadau uniongyrchol PAC.

**109.** Cododd FUW bryderon ynghylch ehangder arfaethedig y derbynwyr:

“...a similar approach was taken in England in 2005, effectively an open-to-all in terms of their payment system, and it contributed significantly to a complete meltdown in their payments that lasted for at least two years, and is a legacy that still remains.”<sup>76</sup>

**110.** Rhybuddiodd NFU Cymru am risgiau’r dull arfaethedig:

“There is a danger, as we see it, that finance money will hemorrhage away to other areas potentially—golf courses, NRW land, forestry—and a whole host of other eligible claimants may emerge, diluting the available pool and that will cause damage to our industry.”<sup>77</sup>

**111.** Galwodd TFA Cymru am “gyfyngiadau clir ynghylch pwy mae modd eu hystyried yn fuddiolwr y cymorth ariannol sydd ar gael”, gyda gofyniad mai dim

---

<sup>74</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 96, 6 Rhagfyr 2018

<sup>75</sup> Nodiadau Esboniadol. Bil Amaethyddiaeth y Deyrnas Unedig

<sup>76</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 163, 24 Hydref 2018

<sup>77</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 207, 14 Tachwedd 2018

ond “ffermwyr gweithredol” neu “reolwyr tir gweithredol” a allai fod yn fuddiolwyr.<sup>78</sup> Roedd FUW hefyd o blaid cyfyngu cymorth ariannol i “ffermwyr gweithredol”. Nododd fod yr Undeb Ewropeaidd yn ceisio cryfhau’r diffiniad o “ffermwr gweithredol”.<sup>79</sup>

**112.** Roedd gan CLA farn wahanol. Er ei fod yn cydnabod yr angen am ryw fath o gyfyngiad i sicrhau bod cymorth ariannol yn cael ei dargedu’n effeithiol, dywedodd:

“the ‘active farmer’ is a construct of the European Union and the rules of Europe and if we are leaving, this may be a chance to look at it afresh...let’s take a step back and if this is a chance to enable more people to enter the industry or to support people who are maybe not actually actively farming to do something different, now is the time to do that...”<sup>80</sup>

**113.** Er bod Dr Petetin o blaid y symudiad i ddarparu cymorth ariannol i amrywiaeth ehangach o dderbynwyr, rhybuddiodd:

“...if we are opening new schemes to land managers broadly defined, it means more competition to access the funds...what that might lead to is actually unfairness in the system, where some actors will need the money and some actors won’t, and by treating everyone the same and equally, you might actually create unfairness in the system. So it needs to be carefully looked at and assessed.”<sup>81</sup>

## Tystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet

**114.** Yn y Cyfarfod Llawn ar 28 Tachwedd, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei bod eisiau i gyllid ar gyfer cymorth i ffermydd fynd “i’r bobl sydd wrthi’n weithredol yn sicrhau’r canlyniadau rydym [Llywodraeth Cymru] eu heisiau i bobl yn gweithredu’r canlyniadau”. Fodd bynnag, honnodd nad oedd y Cynllun Taliad Sylfaenol yn gysylltiedig â deilliannau, cynhyrchiant nac ymdrech ac, o’r herwydd, nid oedd yn deg i ffermwyr gweithredol. Rhybuddiodd yn erbyn “rhoi’r prawf ffermwr gweithredol presennol ar bedestal” a dywedodd fod Llywodraeth Cymru

---

<sup>78</sup> Papur Tystiolaeth – TFA Cymru, 14 Tachwedd 2018

<sup>79</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 208, 14 Tachwedd 2018

<sup>80</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 204, 14 Tachwedd 2018

<sup>81</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 57, 14 Tachwedd 2018

eisiau “system lle mae’r bobl sy’n gwneud y gwaith ac yn ysgwyddo’r risg yn cael y budd”.<sup>82</sup>

**115.** Yn dilyn hynny, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai angen “dadansoddiad priodol” i sicrhau bod y cyllid hwnnw’n cael ei ddsbarthu’n deg.<sup>83</sup>

### 5. 3. Monitro a gorfodi

**116.** Mae Rhan 1, paragraff 3 o Atodlen 3 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud darpariaethau ar gyfer monitro a gorfodi’r amodau y rhoddir cymorth ariannol ar eu cyfer. Gellir gwneud darpariaeth ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau sy’n gysylltiedig â gorfodi, gan gynnwys pennu cosbau ariannol a chreu troseddau.

**117.** Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig y byddai cymorth ariannol ar gael yn benodol ar gyfer cyflawni canlyniadau uwchlaw’r lefel sy’n ofynnol ar gyfer cydymffurfriad rheoleiddiol. Yn *Brexit a’n tir*, amlinellir yr achos dros fframwaith rheoleiddio newydd yn dilyn ymadawriad y Deyrnas Unedig â’r Undeb Ewropeaidd (Pennod 7):

“Caiff rheolwyr tir eu rheoleiddio trwy frodwaith o reoleiddio, y mae cryn dipyn ohono’n deillio o bolisi’r UE. Mae Brexit yn darparu’r cyfle i adeiladu ar Ddeddf yr Amgylchedd i sefydlu sail reoleiddiol newydd ar gyfer rheoli tir sy’n gydlynus, yn seiliedig ar egwyddorion, yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac yn addasol. Mae angen hyn er mwyn darparu sylfaen gadarn ar gyfer y cynlluniau newydd a nodir yn y ddogfen hon, y gall eu canlyniadau gael eu darparu a’u hatgyfnerthu os oes safonau sylfaenol addas a all fod yn sail i wneud taliadau.”<sup>84</sup>

### Tystiolaeth gan randdeiliaid

**118.** Nododd Dr Petetin a Dr Dobbs “nad oes llawr rheoleiddiol yn y Bil Amaethyddiaeth nac yn Brexit a’n tir”. Fe wnaethant bwysleisio’r angen i’r cynlluniau newydd “gael eu hategu gan ddeddfwriaeth addas sy’n gosod isafswm safon ar gyfer yr amgylchedd o ran ansawdd bwyd a’r wybodaeth sydd ar gael i

---

<sup>82</sup> Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, paragraff 349, 28 Tachwedd 2018

<sup>83</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 165, 14 Tachwedd 2018

<sup>84</sup> Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, *Brexit a’n tir: Sicrhau dyfodol ffermwyr Cymru*, Gorffennaf 2018

ddefnyddwyr”.<sup>85</sup> Nododd WEL hefyd nad oedd y Bil yn mynd i'r afael â mater gwaelodlin rheoleiddio, yr oedd o'r farn y byddai “wedi bod o gymorth”.<sup>86</sup>

**119.** Barn Ymddiriedolaeth Natur Cymru oedd y dylai trydydd parti annibynnol ymgymryd â monitro ac arolygu.<sup>87</sup> Mewn cyferbyniad, nododd NFU Cymru fod dirprwyo swyddogaethau i drydydd parti yn “ddianghenraid ac y gallai fod yn drychinebus o bosibl”.<sup>88</sup> Cododd FUW bryder am y posibilrwydd o “ormod o fiwrocratiaeth ac arolygiadau”<sup>89</sup> yn deillio o ymagwedd o'r fath:

“...we have always favoured such responsibilities staying with Government, given that Government and the civil service is effectively supposed to be neutral in terms of how it administers, especially when you get situations where the inspectorate also become the enforcing power and the prosecutor as well. And that is a very, very dangerous situation that already exists with regard to some issues.”<sup>90</sup>

**120.** Nododd Dr Dobbs y byddai'r darpariaethau'n galluogi dulliau amrywiol o fonitro. Nododd fod y cynigion yn *Brexit a'n tir* yn awgrymu ymagwedd a fyddai'n “eithaf dibynnol ar hunan-fonitro a chasglu gwybodaeth gan y ffermwyr a rheolwyr tir”.<sup>91</sup> Dywedodd:

“This is a useful mechanism from the Government's perspective as it cuts down resource reliance. However, this is reliant on farmers, who may not have the requisite expertise, may not have the resources themselves to undertake it. This is quite burdensome. It's problematic in just gathering the information on the farmers, but it also potentially undermines the efficiency and effectiveness of both the schemes themselves...”<sup>92</sup>

**121.** Wrth roi sylwadau ar briodoldeb y ddarpariaeth orfodi, eglurodd Dr Nerys Llewellyn Jones fod cosbau ariannol a chosbau troseddol yn offer a ddefnyddiwyd

---

<sup>85</sup> Papur Tystiolaeth – Dr Petetin a Dr Dobbs, 14 Tachwedd 2018

<sup>86</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 393, 14 Tachwedd 2018

<sup>87</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 396, 14 Tachwedd 2018

<sup>88</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 245, 14 Tachwedd 2018

<sup>89</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 241, 14 Tachwedd 2018

<sup>90</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 243, 14 Tachwedd 2018

<sup>91</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 82, 14 Tachwedd 2018

<sup>92</sup> *ibid*



dan y trefniadau presennol. Pwysleisiodd yr angen am “bolisi gorfodi trylwyr” sydd hefyd yn gymesur.<sup>93</sup>

**122.** Cyfeiriodd Dr Petetin<sup>94</sup> a Confor at gost bosibl monitro a gorfodi effeithiol. Gallai hyn gael effaith ar symiau'r cymorth ariannol sydd ar gael ar gyfer y cynlluniau newydd. Dywedodd Confor ei bod yn bwysig “peidio â thanbriso'r buddsoddiad sydd ei angen” i fonitro a gorfodi'r cynlluniau newydd yn effeithiol.<sup>95</sup>

## Tystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet

**123.** Pan holwyd a fyddai llinell sylfaen reoleiddiol newydd ar waith cyn dechrau'r cyfnod pontio, dywedodd swyddog Ysgrifennydd y Cabinet:

“[the existing regulatory framework] can be simplified in the sense of being made much clearer, not in the sense of reducing the environmental protections, and made much easier for everybody to use. But during the transition period, the existing set of regulations and requirements would still be there. So, there's not going to be a gap until we provide that much clearer, simpler system. So, we want to work on that in parallel and bring that in as soon as we can, because it will help everybody, but the existing set of regulatory requirements and baselines will remain in place.”<sup>96</sup>

## Ein barn ni

Mae'r pŵer i ddarparu cymorth ariannol yn Rhan 1, paragraff 1 yn bŵer anneddfwriaethol. Effaith hyn yw y bydd Gweinidogion Cymru yn gallu sefydlu unrhyw gynllun cymorth ariannol newydd heb unrhyw oruchwyliaeth gan y Cynulliad. At hynny, nid yw Rhan 1 yn cynnwys unrhyw rôl monitro neu oruchwyllo i'r Cynulliad na'i Bwyllgorau mewn perthynas â rhoi unrhyw gynllun newydd ar waith na'u gweithredu.

Mewn cymhariaeth, o dan gyfraith yr Undeb Ewropeaidd, mae gofyniad ar i gynlluniau rhaglenni datblygu gwledig Aelod-wladwriaethau a Rhanbarthau gael eu cymeradwyo gan y Comisiwn Ewropeaidd. Yn ogystal, mae gofyniad ar Aelod-wladwriaethau i fonitro rhaglenni ac adrodd yn flynyddol i'r Comisiwn ar gynnydd. Mewn gwirionedd, mae'n bosibl y bydd unrhyw gynllun newydd yn

---

<sup>93</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 81, 14 Tachwedd 2018

<sup>94</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 88, 14 Tachwedd 2018

<sup>95</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 389, 14 Tachwedd 2018

<sup>96</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 172, 14 Tachwedd 2018

destun llai o oruchwyliaeth nag oedd yn digwydd cyn Brexit. Rydym o'r farn nad yw hyn yn briodol.

O dan ddarpariaethau yn Rhan 1, bydd Gweinidogion Cymru yn gallu darparu cymorth ariannol ar gyfer amrywiaeth eang o ddibenion. Safbwynt Ysgrifennydd y Cabinet yw na fydd hi'n penderfynu ar gynlluniau yn y dyfodol nes ystyrir ymgynghoriad *Brexit a'n tir*. Gan hynny, nid yw hi wedi esbonio i'r Cynulliad i ba bwrpas y bydd hi'n defnyddio'r pwerau hyn. O ystyried hyn, nid yw'n bosibl asesu i ba raddau y bydd y darpariaethau'n galluogi Llywodraeth Cymru i gyflawni ei bwriadau polisi.

Nodwn y gallai'r dibenion y gellir rhoi cymorth ariannol ar eu cyfer ymestyn ehangder y derbynwyr posibl ymhell y tu hwnt i'r rhai sy'n gymwys i gael cymorth o dan y cynlluniau PAC presennol. Gallai ehangu mynediad gael effaith ddifrifol ar y ffermwyr hynny y gall taliadau uniongyrchol fod yn gyfrifol am bron i 85% o'u hincwm. Ni fu unrhyw asesiad o effaith hyn ar y sector.

Rydym yn nodi safbwynt Llywodraeth Cymru y bydd angen i'r cynllun Nwyddau Cyhoeddus arfaethedig gael ei ategu gan drefn reoleiddio briodol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyfeirio at ddiwygio rheoleiddio fel "her fawr", ond un y mae wedi ymrwymo i'w chyflawni. Rydym yn croesawu'r sicrwydd y gellir dibynnu ar y fframwaith rheoleiddiol presennol nes bod diwygio'n digwydd, er mwyn sicrhau bod y safonau'n cael eu cynnal. Fodd bynnag, rydym yn pryderu am y potensial i ddwy system reoleiddiol orgyffwrdd, a all achosi dryswch i hawlwyfwr, ac rydym yn cwestiynu sut bydd hyn yn gweithio'n ymarferol.

Rydym o'r farn y gallai cynnwys ffermwyr mewn canlyniadau monitro fod yn allweddol i lwyddiant cynlluniau. Bydd hyn yn gofyn am hyfforddiant priodol i ffermwyr, a bydd angen cyflwyno hyn ar raddfa genedlaethol. Rydym eisoes wedi gofyn am fanylion gan Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch unrhyw waith a wnaed, neu a gynlluniwyd, i asesu gofynion hyfforddi ffermwyr, ac unrhyw ddadansoddiad o'r costau hyfforddi cysylltiedig.

Yn ogystal, os bydd gwaith monitro ac arolygu yn cynnwys trydydd parti annibynnol, bydd hyn yn arwain at gostau. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi penderfynu eto ar unrhyw gynllun newydd, gan gynnwys sut byddant yn cael eu gweinyddu, eu monitro a'u gorfodi, a chan bwy. Fe fyddem yn pryderu os bwriedir cwrdd â chostau sefydlu a gweinyddu cynlluniau newydd o'r cyllid sydd ar gael i gynorthwyo ffermwyr. Disgwylwn i gyllid ychwanegol fod ar gael at y dibenion hynny.

**Casgliad 12.** Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi dweud na fydd unrhyw benderfyniad yn cael ei gymryd ar fanylion y system gymorth ariannol newydd nes bydd canlyniad ymgynghoriad *Brexit a'n tir* yn hysbys. **Gan hynny, nid yw Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i egluro i'r Cynulliad yn fanwl y dibenion y bydd y pwerau hyn yn cael eu defnyddio ar eu cyfer.**

**Casgliad 13.** Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi nodi, os bydd Llywodraeth Cymru, o ganlyniad i dreialu a modelu, yn penderfynu bod y cynlluniau a gynigir yn *Brexit a'n Tir* yn amhriodol, bydd ymagweddau eraill yn cael eu hystyried a'u datblygu. **Mae hyn yn golygu, mewn gwirionedd, y gellir defnyddio'r darpariaethau at ddibenion sy'n anhysbys ar hyn o bryd.**

**Casgliad 14.** Bydd Bil y Deyrnas Unedig yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno system newydd o gymorth ariannol ar gyfer amaethyddiaeth, ar ôl 40 mlynedd o'r PAC. **Nid yw'r darpariaethau, fel y'u drafftwyd, yn cynnwys unrhyw rôl oruchwylio na monitro i'r Cynulliad wrth sefydlu neu weithredu'r system gymorth ariannol newydd.** Nid ydym o'r farn bod hyn yn briodol mewn meysydd allweddol o gyfrifoldeb datganoledig. Dyma'r tro cyntaf, ers datganoli, i Gymru gael cyfle i lunio ei pholisi ei hun yn y maes hwn, ac mae'n iawn bod y Cynulliad yn chwarae rôl lawn yn hyn o beth.

**Casgliad 15.** Dylai Llywodraeth Cymru geisio diwygiadau i Fil y Deyrnas Unedig i'w gwneud yn ofynnol: mai dim ond drwy gynlluniau a sefydlir gan Reoliadau y gellir rhoi cymorth ariannol dan Ran 1; y dylai'r Rheoliadau hyn fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol; a bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru adrodd i'r Cynulliad yn flynyddol ar effeithiolrwydd unrhyw gynllun a sefydlwyd.

**Casgliad 16.** Ni fu unrhyw asesiad o effaith ariannol y penderfyniad i ehangu mynediad at gynlluniau yn y dyfodol. **Gan hynny, nid yw Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i esbonio i'r Cynulliad pa effaith y bydd y penderfyniad hwn yn ei chael ar ffermwyr.** Fel y cyfeirir ato mewn casgliadau blaenorol, credwn na ddylai Llywodraeth Cymru ddechrau trosglwyddo i'r cynlluniau newydd nes iddi gynnal asesiad o effaith ehangu mynediad at gymorth ariannol a chyhoeddi'r canlyniadau.

## 6. Arian yn y dyfodol ar gyfer polisi amaeth

**124.** Yn ddiweddar, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y bydd cymorth PAC (y Cynllun Taliad Sylfaenol) yn parhau heb ei newid yn 2020. O dan y cynigion a nodir yn *Brexit a'n tir*, disgwylir i daliadau uniongyrchol PAC gael eu dirwyn i ben yn raddol o 2020 i baratoi ar gyfer y cynlluniau newydd arfaethedig. Nid yw cyllid yn y dyfodol ar gyfer y cynlluniau hyn, nac unrhyw gynllun arall y gellir ei gyflwyno yn sgil y darpariaethau yn Atodlen 3, wedi cael ei benderfynu eto.

**125.** Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cadarnhau y bydd cyllid cyffredinol ar gyfer cymorth i ffermydd y Deyrnas Unedig yn cael ei ddiogelu yn nhermau arian parod tan ddiwedd y Senedd yn 2022. Ym mis Hydref 2018, sefydlodd banel cynghori annibynnol i adolygu dyrannu cyllid cymorth domestig o fewn y Deyrnas Unedig ar gyfer 2020 i 2022, gyda'r nod o ddarparu "cyllid teg" i ffermwyr ar draws pob rhan o'r Deyrnas Unedig.

**126.** Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cadarnhau na fydd yn cymhwyso fformiwla Barnett i newidiadau mewn cyllid y tu hwnt i'r Senedd hon. Fodd bynnag, nid oes gwybodaeth bellach ar gael ynglŷn â threfniadau cyllido na lefelau cyllido yn y dyfodol.

**127.** Yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil y Deyrnas Unedig, dywed Llywodraeth Cymru:

"Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol i Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad o ganlyniad i gymryd y pwerau yn y Bil hwn."<sup>97</sup>

**128.** Mewn cyferbyniad, nodir yn y Nodiadau Esboniadol ar gyfer Bil y Deyrnas Unedig:

"This Bill requires a money resolution because the Secretary of State is likely to incur significant expenditure in providing new financial payments to land managers (See Part 1, clauses 1 to 3) and in honouring existing financial support under the CAP (see Part 2, clauses 4 to 12)."<sup>98</sup>

---

<sup>97</sup> Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil Amaethyddiaeth

<sup>98</sup> Nodiadau Esboniadol Bil Amaethyddiaeth y Deyrnas Unedig

---

## Tystiolaeth gan randdeiliaid

**129.** Nododd Dr Petetin a Dr Dobbs, yn dilyn ymadawriad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd, mai Llywodraeth y Deyrnas Unedig fydd yn "rheoli'r pwrs".<sup>99</sup> Bydd Llywodraeth Cymru yn dibynnu ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i ddarparu lefel briodol o gyllid i gynorthwyo'r gwaith o weithredu unrhyw gynllun yn y dyfodol. Roeddent yn awgrymu y byddai canlyniad tebygol adolygiad Llywodraeth y Deyrnas Unedig o "arian teg" yn "arwain at ragor o neilltuo arian, gyda'r taliad yn gyfochrog â'r grant bloc".<sup>100</sup> Aethant ymlaen i ddweud:

"...there are hints of an alternative approach that looks to the needs and objectives of the different devolved administrations...Funding will not be limitless though and will most certainly decrease over time, so the question is whether the devolved administrations will be able to establish and justify their relative needs effectively. This will be in part related to the efficiency of the schemes, but also the very acceptability of the schemes in the eyes of Westminster."<sup>101</sup>

**130.** Yn ystod ymchwiliad y Pwyllgor i'r cynllun Nwyddau Cyhoeddus arfaethedig, cododd Ymddiriedolaeth Natur Cymru bryder y bydd yn rhaid i'r cynlluniau newydd arfaethedig gystadlu am arian gyda blaenoriaethau gwleidyddol a chyhoeddus eraill yn y dyfodol.<sup>102</sup> Pwysleisiodd yr angen i sicrhau nad yw Cymru "geiniog ar ei cholled ar ôl Brexit", a galwodd am weld arian yn cael ei neilltuo yn y dyfodol.<sup>103</sup> Er gwaethaf hyn, cydnabu "realiti gwleidyddol cyflawni hyn", yn enwedig ar ôl diwedd y cyfnod pontio arfaethedig.<sup>104</sup>

**131.** Galwodd Confor hefyd am neilltuo cyllid yn y dyfodol, o leiaf ar gyfer y cyfnod pontio. Nododd, "yn y tymor hwy o ran lefel y cyllid rydym wedi ei gael - yn gyffredinol, mae cymhorthdal gwledig yn tueddu i ddirywio. Ni chredaf fod Cymru'n mynd i fod yn wahanol i'r duedd hirdymor honno".<sup>105</sup>

**132.** Mynegodd cynrychiolwyr o'r sector amaethyddol siom nad oedd Atodlen 3 yn darparu ar gyfer mecanwaith cyllido yn y dyfodol, gan alw am sylw i'r mater hwn. Dywedodd TFA Cymru:

---

<sup>99</sup> Papur Tystiolaeth – Dr Petetin a Dr Dobbs, 14 Tachwedd 2018

<sup>100</sup> *ibid*

<sup>101</sup> *ibid*

<sup>102</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 176, 24 Hydref 2018

<sup>103</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 340, 14 Tachwedd 2018

<sup>104</sup> *ibid*

<sup>105</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 344, 14 Tachwedd 2018

“...it is a major weakness that the Schedule does not provide a mechanism for setting a budget for the financial assistance powers into the future. TFA Cymru argues that the Schedule should contain provisions to establish multiannual budgets (at least five-year budgets) to be agreed after the end of the current guaranteed period.”<sup>106</sup>

**133.** Adleisiodd NFU Cymru yr uchod a nododd y byddai cynnwys darpariaeth ar gyfer “fframwaith ariannol dros sawl blwyddyn” yn lleihau’r risg o “droi cyllid ar gyfer amaethyddiaeth yn bêl-droed wleidyddol”.<sup>107</sup>

**134.** Pwysleisiodd CLA yr “angen brys” i sefydlu mecanwaith cyllido hirdymor ochr yn ochr â Bil y Deyrnas Unedig, gan ddweud “nad yw pwerau deddfwriaethol heb arian yn bŵer o gwbl”.<sup>108</sup> Galwodd FUW am “sefydlu fframwaith ar gyfer amaethyddiaeth ledled y Deyrnas Unedig ar y cyd gan Weinidogion y Goron, Gweinidogion yr Alban, Gweinidogion Cymru a Gweinidogion Gogledd Iwerddon”.<sup>109</sup>

**135.** Wrth bwysleisio natur hirdymor cynlluniau arfaethedig Llywodraeth Cymru, dywedodd Dr Petetin:

“...moving away from a multi-annual budget to an annual budget post Brexit is going to be incredibly difficult for farmers. Farmers need to plan ahead. We are talking about schemes that could be five, 10 or 15 years long. But if, in contrast, we have annual budgets, then we have a big problem here. How can we fund a 10, 15, 20-year scheme on an annual budget?”<sup>110</sup>

## Ein barn ni

Mae’n hollbwysig cynnal cyllid ar gyfer y sector amaethyddol ar yr un lefel ar ôl Brexit, o leiaf yn y tymor byr. Nid ydym yn disgwyl i’r sector gael ei gosbi o ganlyniad i ymadawiad y Deyrnas Unedig â’r Undeb Ewropeaidd. Rydym yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth y Deyrnas Unedig i ddiogelu cyllid cyffredinol ar gyfer cymorth i ffermwyr y Deyrnas Unedig mewn termau arian parod tan ddiwedd y Senedd yn 2022. Fodd bynnag, nid yw’r trefniadau ar gyfer dyrannu cyllid ar lefel fewnol y Deyrnas Unedig wedi eu pennu eto. Er ein bod

---

<sup>106</sup> Papur Tystiolaeth – TFA Cymru, 14 Tachwedd 2018

<sup>107</sup> Papur Tystiolaeth – NFU Cymru, 14 Tachwedd 2018

<sup>108</sup> Papur Tystiolaeth – CLA, 14 Tachwedd 2018

<sup>109</sup> Papur Tystiolaeth – FUW, 14 Tachwedd 2018

<sup>110</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 131, 14 Tachwedd 2018

yn cydnabod bod adolygiad yn mynd rhagddo ar y mater hwn, mae angen brys am eglurder ar lefelau cyllid yn 2020 i 2022, yn enwedig er mwyn rhoi sicrwydd i'r sector.

At hynny, mae gennym bryderon difrifol ynghylch y diffyg eglurder o ran y trefniadau cyllido yn y tymor hir. Bydd y trefniadau hyn yn dibynnu ar gydweithredu effeithiol a chydweithio rhwng y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru. Dylai Llywodraeth Cymru geisio ymrwymiad gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig y bydd trefniadau cyllido ar gyfer cymorth i ffermwyr yn y dyfodol yn cael eu datblygu mewn partneriaeth â'r gweinyddiaethau datganoledig, ac y bydd cydraddoldeb rhwng partneriaid.

Mae symud o Fframwaith Ariannol Aml-flwyddyn yr Undeb Ewropeaidd i gylch cyllideb flynyddol yn amlwg yn creu ansicrwydd ychwanegol i'r sector. Mae hyn, ynghyd â'r symudiad i gynllun arfaethedig ar sail canlyniadau, wedi arwain at bryderon ynghylch sut bydd hyn yn effeithio ar gynllunio busnes a buddsoddi hirdymor.

Yn ôl Llywodraeth Cymru, nid oes "goblygiadau ariannol uniongyrchol" ar gyfer y Llywodraeth na'r Cynulliad o ran y pwerau sy'n cael eu ceisio drwy Fil y Deyrnas Unedig. Mae'n anodd cysoni hyn â datganiad Llywodraeth y Deyrnas Unedig bod pwerau cyfatebol i'r Ysgrifennydd Gwladol yn debygol o arwain at "wariant sylweddol".

Nodwn nad yw Llywodraeth Cymru wedi ymgymryd â gwaith eto i asesu'r costau sy'n gysylltiedig â chyflwyno system cymorth ariannol newydd ac unrhyw gynllun newydd. Er na fydd cymryd y pwerau yn Atodlen 3 ynddo'i hun yn arwain at wariant gan y Llywodraeth, mae'n debyg y bydd costau sylweddol yn gysylltiedig â sefydlu'r cynlluniau hyn, yn enwedig yn y camau cychwynol. Disgwylw'n i Lywodraeth Cymru ddarparu dadansoddiad manwl i'r Cynulliad o'r costau sy'n gysylltiedig â sefydlu'r cynlluniau newydd cyn gynted â phosibl.

Rydym yn ailadrodd ein casgliad yn ein hadroddiad ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20, na ddylid cwrdd â'r costau ar gyfer sefydlu cynlluniau newydd gan ddefnyddio cyllid sydd ar gael i gynorthwyo ffermwyr. Mae'n rhaid i gyllid ychwanegol newydd fod ar gael ar gyfer sefydlu'r cynlluniau hyn. Byddwn yn parhau i fynd i'r afael â'r materion hyn gydag Ysgrifennydd y Cabinet wrth i fanylion pellach ddod i'r amlwg.

**Casgliad 17.** Nid yw cenhedloedd cyfansoddol y Deyrnas Unedig wedi dod i gytundeb eto ar drefniadau cyllido amaethyddiaeth yn y Deyrnas Unedig ar gyfer 2020-2022. At hynny, nid oes eglurder o ran trefniadau cyllido mwy

hirdymor. Rhaid sefydlu mecanwaith rhynglywodraethol newydd i sicrhau cytundeb cynaliadwy, hirdymor ar gyfer cyllido amaethyddiaeth a rheoli tir yn y Deyrnas Unedig.

**Casgliad 18.** Nid yw Llywodraeth Cymru wedi darparu unrhyw wybodaeth ariannol i'r Cynulliad mewn perthynas â chostau cyflwyno cynlluniau newydd, ac eithrio dweud na fydd "goblygiadau ariannol uniongyrchol". Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi dweud bod pwerau cyfatebol i'r Ysgrifennydd Gwladol yn debygol o arwain at "wariant sylweddol". **Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i gyhoeddi, cyn sefydlu cynlluniau newydd, asesiad effaith rheoleiddiol llawn o'r cynigion, a ddylai gynnwys asesiad manwl o gostau ac asesiad o ran nodau llesiant, ond ni ddylid cyfyngu'r asesiad i hynny'n unig.**



## 7. Cytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth

### 7. 1. Cydymffurfio â Sefydliad Masnach y Byd ar ôl Brexit

**136.** Ar ôl i'r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd, bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn gyfrifol am sicrhau bod holl bolisiâu'r Deyrnas Unedig ar gymorth domestig mewn perthynas ag amaethyddiaeth a datblygu gwledig yn cydymffurfio â rheolau Sefydliad Masnach y Byd.

**137.** Ar hyn o bryd, cynrychiolir y Deyrnas Unedig yn Sefydliad Masnach y Byd gan y Comisiwn Ewropeaidd, fel Aelod-wladwriaeth. Ar ôl i'r Deyrnas Unedig ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, ni fydd yr Undeb Ewropeaidd yn ei chynrychioli.

**138.** Mae DEFRA yn disgwyl i'r Deyrnas Unedig dderbyn cyfran o lwfans Mesur Cyfanredol Cymorth (AMS) yr Undeb Ewropeaidd ar ôl ymadael â'r Undeb. y Mesur hwn yw lefel y cymorth amaethyddol blynyddol a roddir i gynhyrchwyr amaethyddol ac eithrio unrhyw gymorth blwch gwyrdd neu las. Bydd angen pennu nenfwd gyffredinol yn y Deyrnas Unedig cyn pennu terfynau unigol ar gyfer pob awdurdod priodol ar draws y Deyrnas Unedig.

### Tystiolaeth gan randdeiliaid

**139.** Mynegodd academyddion a chynrychiolwyr y sector amaethyddol bryderon ynghylch y darpariaethau mewn perthynas â Chytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth. Yn benodol, cymal 26 (4)(b), a fyddai'n galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i bennu nenfydau ar gymorth blwch gwyrdd a/neu flwch glas.

**140.** Pwysleisiodd TFA Cymru yr angen i drefniadau Sefydliad Masnach y Byd fod yn rhan o "fframwaith y cytunwyd arno yn y Deyrnas Unedig a lywodraethir mewn partneriaeth â chyfleuster datrys anghydfod wedi ei lunio'n dda". Ychwanegodd:

"At a practical level, this will also provide the necessary basis to maintain the economic union between the four countries of the United Kingdom in terms of its trading relationship internally and with the rest of the world."<sup>111</sup>

**141.** Nododd NFU Cymru y gallai cymal 26, fel y'i drafftwyd, "gyfyngu ar ddewisiadau polisi yn y dyfodol yng Nghymru drwy bennu terfynau ar wariant ac

---

<sup>111</sup> Papur Tystiolaeth – TFA Cymru, 14 Tachwedd 2018

atal rhai mathau o gymorth”, a allai, mewn theori, “gyflwyno cyfyngiadau ar gategoriâu gwariant, a ganiateir ar hyn o bryd o dan y PAC”.<sup>112</sup>

**142.** Datganodd y dylid arfer y pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol bennu terfynau ar wariant “yn dilyn trafodaeth a chytundeb rhwng Defra a'r gweinyddiaethau datganoledig”,<sup>113</sup> ac ychwanegodd:

“We would say that we are seeing a centralisation of powers here, for quite arbitrary reasons, from reading the Bill. We would say that there needs to be consent and agreement from Cardiff, Edinburgh and Belfast on that. We don't want to see these powers pulled into the centre and exercised solely by the DEFRA Secretary of State...We don't want to see DEFRA exercising a veto over a Welsh policy decision, but we also accept that there need to be sensible limits on spending as well, but they need to be agreed across the UK, not imposed.”<sup>114</sup>

**143.** Adleisiodd FUW yr uchod, gan ddweud:

“[Clause 26] grants powers to the Secretary of State which could be used to prevent the Welsh Government and Assembly from introducing reasonable policies which are in Wales' national interest and have no impact on the Agreement on Agriculture – thereby exerting influence on Welsh policies, potentially in an unprecedented manner.

As such, the failure of Clause 26 to require consultation with and agreement from devolved authorities before such limits are set, or to ensure the creation of a neutral structure through which to set such limits, is a significant concern and potential threat to devolution.”<sup>115</sup>

**144.** Roedd Dr Petetin a Dr Dobbs yn feirniadol o gymal 26, oherwydd ei fod “yn cyfyngu'n unochrog ar bwerau'r gweinyddiaethau datganoledig wrth lunio eu polisiau amaethyddol”.<sup>116</sup> Esboniodd Dr Petetin:

“[Clause 26] enables Westminster to actually decide thinking about future schemes within Wales as to under which box each scheme is going to fall. So, even if Wales would say, 'We think that the public goods scheme falls under the green box', but Westminster thinks it's an

---

<sup>112</sup> Papur Tystiolaeth – NFU Cymru, 14 Tachwedd 2018

<sup>113</sup> Papur Tystiolaeth – NFU Cymru, 14 Tachwedd 2018

<sup>114</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 305, 14 Tachwedd 2018

<sup>115</sup> Papur Tystiolaeth – FUW, 14 Tachwedd 2018

<sup>116</sup> Papur Tystiolaeth – Dr Petetin a Dr Dobbs, 14 Tachwedd 2018

amber box scheme, then, under clause 26, it has the final say; it has the final word. Therefore, here we really have a big change as to the relationship between the UK and the devolved nations, because, at the moment, the UK central Government has no say over that; it's a relationship between the devolved nations and the EU."<sup>117</sup>

## Tystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet

**145.** Ar 12 Medi cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad ysgrifenedig ar Fil Amaethyddiaeth y Deyrnas Unedig. Er bod y datganiad yn pwysleisio cefnogaeth gyffredinol Llywodraeth Cymru i'r Bil, mae hefyd yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn anghytuno â Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar y graddau y mae'r cymal sy'n ymwneud â'r berthynas rhwng Sefydliad Masnach y Byd a'r Deyrnas Unedig yn fater a gedwir yn ôl. Mae'r datganiad yn pwysleisio'r berthynas gref rhwng pwerau Sefydliad Masnach y Byd a chyfrifoldebau datganoledig ar gymorth amaethyddol, gan nodi:

"Mae Gweinidogion Cymru wedi sicrhau cytundeb pwysig gan Lywodraeth y DU i ymrwymo yn y Senedd i ymgynghori â'r Gweinyddiaethau Datganoledig ar reoliadau sy'n gysylltiedig â'r WTO. Rydym hefyd wedi cytuno i ddod o hyd i broses ar gyfer sut y bydd rheoliadau o'r fath yn cael eu llunio. Fodd bynnag, mae ymrwymiad i ymgynghori yn annigonol o ystyried pwysigrwydd y mater hwn. Byddwn felly yn parhau i weithio tuag at gytundeb sy'n sicrhau bod cysylltiad priodol gyda safbwyntiau Gweinidogion Cymru a gweinyddiaethau eraill ac ystyriaeth ohonynt."<sup>118</sup>

**146.** Yn dilyn hynny, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod safbwynt Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar Sefydliad Masnach y Byd yn "linell goch", ac na allai hi argymhell bod y Cynulliad yn rhoi cydsyniad pe na bai Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn newid ei safbwynt.<sup>119</sup>

**147.** Wrth roi diweddariad i'r Pwyllgor mewn gohebiaeth ddiweddarach, cyfeiriodd Ysgrifennydd y Cabinet at "drafodaethau cadarnhaol yn ddiweddar gyda'r Ysgrifennydd Gwladol" a'i bod hi'n "gwneud cynnydd da wrth geisio dod o hyd i ateb". Ychwanegodd:

---

<sup>117</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 101, 14 Tachwedd 2018

<sup>118</sup> Datganiad Ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig.- Cyflwyniad i Fil Amaethyddiaeth y Deyrnas Unedig, 12 Medi 2018

<sup>119</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion, paragraffau 59 – 61, 5 Tachwedd 2018

---

“It may not be necessary to amend the Bill to achieve this and it could be possible to reach a satisfactory outcome through an agreement between governments as to how the existing provision should operate.”<sup>120</sup>

**148.** Yn dilyn hynny, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

“...my concern wasn’t with [clause 26] itself, but it was about how that power was exercised, because their belief was that it was a reserved matter and I was very clear that it wasn’t. So, I don’t think it would be appropriate for that kind of information to be on the face of the Bill.”<sup>121</sup>

**149.** Eglurodd ei bod yn aros am ohebiaeth bellach gan yr Ysgrifennydd Gwladol, ac roedd ef yn ymwybodol na fyddai hi’n “argymell cydsyniad y Cynulliad hwn oni bai ein bod yn datrys y mater hwn”.<sup>122</sup>

**150.** Pan ofynnwyd iddi a fyddai unrhyw gytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cael ei gyhoeddi, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

“I don’t think it’ll be an agreement as such...I’d be very happy to publish letters if I’m able to.”<sup>123</sup>

**151.** O ran pa mor gynaliadwy fyddai cytundeb o’r math hwn pe caed Gweinidog neu Lywodraeth newydd, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

“It just goes back to the very beginning of devolution, when we had the memorandum of understanding between the UK Government and all the devolved administrations. And if you think about it, that’s the basis of all our inter-governmental machinery.”<sup>124</sup>

## Ein barn ni

Rydym yn rhannu pryderon rhanddeiliaid ynghylch y pwerau yng nghymal 26, yn enwedig y rhai a fyddai’n galluogi’r Ysgrifennydd Gwladol i benderfynu ar ddsbarthiad cymorth ledled y Deyrnas Unedig, a phennu terfynau ar lefelau

---

<sup>120</sup> Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, dyddiedig 21 Tachwedd 2018

<sup>121</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 103, 6 Rhagfyr 2018

<sup>122</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 104, 6 Rhagfyr 2018

<sup>123</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 108, 6 Rhagfyr 2018

<sup>124</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 110, 6 Rhagfyr 2018

cymorth domestig. Rydym yn pryderu y gallai'r darpariaethau hyn gyfyngu ar allu Llywodraeth Cymru i ddylunio cynlluniau sy'n diwallu anghenion penodol sector amaethyddol Cymru.

Rydym yn nodi bod safbwynt Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar Sefydliad Masnach y Byd yn "linell goch" i Ysgrifennydd y Cabinet, i'r graddau y byddai'n barod i awgrymu y dylai'r Cynulliad wrthod cydsyniad os na chaiff y mater ei ddatrys.

Fel mae'r Pwyllgor hwn wedi ei nodi'n glir mewn nifer o adroddiadau, bydd gadael yr Undeb Ewropeaidd yn golygu bod angen sefydlu cysylltiadau rhynglywodraethol newydd. Nid yw'r trefniadau ar gyfer dyfodol polisi amaethyddiaeth yn y Deyrnas Unedig yn eithriad. Rydym o'r farn bod angen model cyd-lywodraethu, gyda statws cydradd ar gyfer pob un o rannau cyfansoddol y Deyrnas Unedig. Bydd hyn yn angenrheidiol er mwyn gweithredu fframweithiau cyffredin yn effeithiol ac i ddatrys anghydfodau yn y dyfodol ar faterion fel y rhai sy'n deillio o ddarpariaethau cymal 26.

Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym ei bod wedi cael sicrwydd bod y mater hwn wedi ei ddatrys, drwy ohebiaeth gyda'r Ysgrifennydd Gwladol cyfredol. Rydym yn falch ei bod yn ymddangos fod cydweithredu wedi digwydd ar y mater hwn. Fodd bynnag, mae'n rhaid ffurfioli materion mor arwyddocaol, a allai fod â goblygiadau sylweddol o ran cyflwyno polisi mewn maes allweddol o gymhwysedd datganoledig, naill ai drwy gytundeb rhynglywodraethol rhwymol, neu drwy ddarpariaeth deddfwriaethol.

Rydym o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru fynd ar drywydd gwelliant i gymal 26 â Llywodraeth y Deyrnas Unedig, er mwyn rhoi rôl glir i Weinidogion Cymru a gweinyddiaethau datganoledig eraill wrth bennu dosbarthiad cymorth ariannol a therfynau gwario.

**Casgliad 19.** Rydym yn rhannu pryderon rhanddeiliaid am oblygiadau posibl y darpariaethau yng nghymal 26 mewn perthynas â Sefydliad Masnach y Byd, a'u potensial i gyfyngu ar Lywodraeth Cymru mewn meysydd datganoledig. Rydym o'r farn y dylid mynd i'r afael â hyn naill ai drwy welliant i Fil y Deyrnas Unedig neu, ar y lleiaf, gytundeb ffurfiol wedi ei gyhoeddi rhwng Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru.

**Casgliad 20.** Mae angen dybryd am fecanwaith rhynglywodraethol ffurfiol ar lefel Weinidogol i ddatrys anghydfodau a allai godi mewn perthynas â gweithredu polisi amaethyddiaeth yn y Deyrnas Unedig yn y dyfodol. Dylai hwn fod yn fodel o lywodraethu ar y cyd yn seiliedig ar gydraddoldeb parch.

## 8. Darpariaethau eraill y gwneir cais am gydsyniad ar eu cyfer

### 8. 1. Casglu a rhannu data

**152.** Mae Rhan 3 o Atodlen 3 yn galluogi Gweinidogion Cymru:

- i gyflwyno gofynion newydd ar y rhai sydd yn y gadwyn gyflenwi bwyd-amaeth i gyflenwi gwybodaeth mewn perthynas â'r gadwyn gyflenwi honno. Mae'n nodi pwy allai gael eu cynnwys a'r dibenion y gellir prosesu gwybodaeth ar eu cyfer; ac
- i wneud darpariaeth ar gyfer gorfodi'r gofynion.

### Tystiolaeth gan randdeiliaid

**153.** Roedd ymateb cynrychiolwyr y sector amaethyddol yn gefnogol ar y cyfan i'r pwerau fel modd o wella tryloywder yn y gadwyn gyflenwi. Er enghraifft, dywedodd TFA Cymru:

“One of the attributes of a perfectly competitive market is perfect knowledge in that marketplace. We have suffered for many years from imperfect knowledge within the supply chain, and the powers within the Bill would address that significantly. Yes, there are concerns about the privity of contract and all of that and sensitive financial data, but I think these powers will give Welsh Ministers a good deal of leverage to ensure the supply chains are operating sufficiently and fairly within Wales, and hopefully the powers will be used sparingly because people will do the right thing in terms of sharing data with each other.”<sup>125</sup>

**154.** Nododd FUW fod y pwerau hyn yn ddewisol ac, fel y cyfryw, nad oedd rhwymedigaeth ar Weiniogion Cymru “i barhau i wneud yr hyn y mae'n ofynnol i ni ei wneud o dan [reoliadau'r] Undeb Ewropeaidd”. Tynnodd sylw at y ffaith bod amrywiaeth o ddata yn cael ei gasglu ar hyn o bryd o dan ddeddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd, y gellid ei ddefnyddio, er enghraifft, i nodi tueddiadau'r farchnad. Cododd FUW bryder ynghylch y goblygiadau i'r sector pe bai Gweinidogion Cymru yn dewis peidio â defnyddio'r pwerau yn Rhan 3.<sup>126</sup>

---

<sup>125</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 308, 14 Tachwedd 2018

<sup>126</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 310, 14 Tachwedd 2018

**155.** Er eu bod yn cefnogi'r pwerau mewn egwyddor, galwodd NFU Cymru a CLA am eglurhad pellach gan Lywodraeth Cymru ar sut byddent yn cael eu defnyddio. Dywedodd CLA:

“...Welsh Ministers have as yet to indicate how these powers will be used...it comes back to this question of trust again, in terms of what we're missing at the moment is that trust that the data will be used well and wisely and it seems the need for the data has not yet been explained or understood.”<sup>127</sup>

**156.** Eglurodd Confor ei fod ar hyn o bryd yn aros am gadarnhad ynghylch a fyddai'r pwerau'n ymestyn i gynnwys gofynion ar y rhai sy'n ymwneud â chyflenwi cynhyrchion coedwigaeth. Dywedodd ei fod yn awyddus i'r sector coedwigaeth gael ei gynnwys yng nghwmpas Rhan 3.<sup>128</sup>

**157.** Cododd rhai rhanddeiliaid bryderon ynghylch y goblygiadau i ffermydd bach o ran cwrdd â'r gofynion i ddarparu gwybodaeth. Er enghraifft, dywedodd Dr Petetin a Dr Dobbs:

“These additional requirements on farmers will not ease their day-to-day work and create a different kind of red tape – again more crippling for small farms...Replacing one kind of red tape by another (data collection and sharing) does not improve the daily work life of farmers.”<sup>129</sup>

**158.** Mynegwyd barn debyg gan WEL ac Ymddiriedolaeth Natur Cymru, gyda'r Ymddiriedolaeth yn datgan:

“...this is all time and effort and, for some people, concern and worry. So we've got to be very careful again about what we are trying to achieve with these measures...The large dairy farmers, the large holdings—yes, they can invest in all of this technology et cetera. We have to be realistic about what a family unit—invariably, that's what it is—can be expected to undertake.”<sup>130</sup>

---

<sup>127</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 309, 14 Tachwedd 2018

<sup>128</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 327, 14 Tachwedd 2018

<sup>129</sup> Papur Tystiolaeth – Dr Petetin a Dr Dobbs, 14 Tachwedd 2018

<sup>130</sup> Cofnod y Trafodion, 429, 14 Tachwedd 2018

---

## 8. 2. Ymyriadau mewn marchnadoedd amaethyddol

**159.** Mae Rhan 4 o Atodlen 3 yn galluogi Gweinidogion Cymru:

- i ymyrryd mewn marchnadoedd amaethyddol os ydynt o'r farn bod "amodau eithriadol yn y farchnad", sy'n cyfiawnhau cymorth neu ymyrraeth ariannol; ac
- i ddefnyddio, ac addasu, pwerau o dan ddeddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd a gedwir yn ôl sy'n darparu ar gyfer gweithredu ymyrraeth gyhoeddus a chymorth ar gyfer mecanweithiau storio preifat, mewn ymateb i "amodau eithriadol yn y farchnad".

**160.** At ddibenion Rhan 4, mae "amodau eithriadol yn y farchnad" yn bodoli lle mae aflonyddu difrifol neu fgygythiad o ddifrif o aflonyddwch difrifol mewn marchnadoedd amaethyddol, sydd wedi cael, neu sy'n debygol o gael, effaith andwyol sylweddol ar gynhyrchwyr amaethyddol yng Nghymru o ran y prisiau sydd ar gael ar gyfer eu cynnyrch.

### Tystiolaeth gan randdeiliaid

**161.** Croesawodd TFA Cymru ac NFU Cymru y darpariaethau, ond gan nodi bod y pwerau i Weinidogion Cymru ddatgan "amodau eithriadol yn y farchnad" ac i ddarparu cymorth i'r sector, yn bwerau dewisol. Mynegwyd ffafriaeth am *ddyletswydd* ar Weinidogion Cymru i weithredu.

**162.** Gofynnodd TFA Cymru am sicrwydd y byddai "fffenomenau naturiol fel sychder, llifogydd a chlefydau yn ogystal â ffenomenau economaidd" yn cyfiawnhau defnyddio'r pwerau. Gofynnodd hefyd am sicrwydd y gellid defnyddio'r pwerau "os yw anawsterau 'cronig' neu anawsterau parhaol yn amlwg". Er enghraifft, clefyd endemig neu newidiadau strwythurol mewn marchnadoedd amaethyddol lle gallai fod yn ofynnol i ffermwyr wynebu addasiadau sylweddol.<sup>131</sup>

**163.** Nododd CLA fod y Bil yn cynnwys pwerau cyfatebol i'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Lloegr. Cwestiynodd pa mor briodol yw cynnwys pwerau ar wahân i Gymru a Lloegr, o ystyried bod gan y ddwy wlad gadwyn gyflenwi mor integredig, a mynegodd bryder y gallai "unrhyw benderfyniad unochrog i weithredu'r darpariaethau ystumio'r farchnad".<sup>132</sup> Pwysleisiodd CLA yr angen am "gydweithrediad a chytundeb" rhwng Llywodraeth y Deyrnas Unedig a

---

<sup>131</sup> Papur Tystiolaeth – TFA Cymru, 14 Tachwedd 2018

<sup>132</sup> Papur Tystiolaeth – CLA, 14 Tachwedd 2018



Llywodraeth Cymru wrth arfer y pwerau hyn, ac awgrymodd y byddai hynny'n "rhan gadarn" o unrhyw fframwaith gweinyddol cytunedig yn y dyfodol.<sup>133</sup>

**164.** Roedd Confor o'r farn y dylai'r darpariaethau mewn perthynas ag ymyrryd y farchnad ymestyn i goedwigaeth.<sup>134</sup>

### Tystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet

**165.** Wrth egluro'r amgylchiadau y gellid arfer y pwerau i ymyrryd mewn marchnadoedd amaethyddol, dywedodd swyddog Ysgrifennydd y Cabinet:

"Past examples have been some of the very extreme price fluctuations or extreme weather events that cause major short-term disruption."<sup>135</sup>

**166.** Aeth ymlaen i esbonio bod pwerau cyfatebol o dan gyfraith gyfredol yr Undeb Ewropeaidd wedi cael eu harfer "mewn ychydig iawn o achosion".<sup>136</sup>

**167.** Awgrymodd swyddog Ysgrifennydd y Cabinet fod ymyrryd mewn marchnadoedd amaethyddol yn "faes clasurol" lle mae angen fframwaith cyffredin yn y Deyrnas Unedig.<sup>137</sup>

### 8. 3. Safonau marchnata a dosbarthiadau carcassau

**168.** Mae Rhan 5 o Atodlen 3 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaethau:

- mewn perthynas â safonau marchnata ynghylch ansawdd cynhyrchion amaethyddol a gwybodaeth am gynnyrch i gwsmeriaid yng Nghymru; ac
- ynghylch dosbarthu, adnabod a chyflwyno carcassau buchol, moch a defaid mewn lladd-dai yng Nghymru.

### Tystiolaeth gan randdeiliaid

**169.** Croesawodd TFA Cymru y darpariaethau mewn perthynas â safonau marchnata ar gyfer cynhyrchion amaethyddol. Fodd bynnag, galwodd am sicrwydd y byddai Bil y Deyrnas Unedig yn cynnwys "dyletswydd ... i sicrhau bod

---

<sup>133</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 288, 14 Tachwedd 2018

<sup>134</sup> Papur Tystiolaeth – Confor, 14 Tachwedd 2018

<sup>135</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 190, 6 Rhagfyr 2018

<sup>136</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 200, 6 Rhagfyr 2018

<sup>137</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 190, 6 Rhagfyr 2018

safonau uchel sydd ar waith mewn perthynas â chynhyrchu domestig hefyd yn cael eu cymhwyso'n gyfartal i gynhyrchion sy'n dod i'r Deyrnas Unedig o dramor, o fewn cytundebau masnach rydd wedi eu trafod neu fel arall".<sup>138</sup>

**170.** Mynegwyd barn debyg gan NFU Cymru. Mynegodd siom nad oedd y Bil yn gwneud darpariaethau i wahardd mewnforio "bwyd a gynhyrchwyd i safonau is o ran yr amgylchedd, lles anifeiliaid a diogelwch bwyd na'n safonau domestig ein hunain".<sup>139</sup> Dywedodd:

"...the Bill could have been that opportunity to enshrine our desire to have and uphold our high standards in this country... I think it's regrettable that the opportunity presented here has been missed."<sup>140</sup>

## Tystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet

**171.** Eglurodd Ysgrifennydd y Cabinet nad oedd coedwigaeth o fewn cwmpas Rhannau 3, 4 a 5 oherwydd "nad yw wedi ei gynnwys yn neddfwriaeth gyfredol yr Undeb Ewropeaidd. Gan hynny, ni fyddem eisiau ei newid i gynnwys coedwigaeth gan nad ydym eisiau newid deddfwriaeth sydd y tu allan i gwmpas disodli'r PAC".<sup>141</sup>

## Ein barn ni

Rydym yn cefnogi, mewn egwyddor, y darpariaethau yn Rhannau 3, 4 a 5 o Atodlen 3. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid yw'n glir sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu defnyddio'r pwerau a ddarperir.

O ran casglu a rhannu data (Rhan 3), rydym yn rhannu pryderon rhanddeiliaid ynghylch y goblygiadau ymarferol ar ffermydd llai o ran bodloni gofynion mewn perthynas â gwybodaeth. Bydd yn bwysig sicrhau nad yw gofynion yn y dyfodol yn rhy feichus i'r ffermwyr hyn.

Disgwyliwn i fframwaith cyffredin y Deyrnas Unedig ar gyfer amaethyddiaeth gynnwys y gallu i arfer pwerau er mwyn ymyrryd mewn marchnadoedd amaethyddol.

Rydym yn nodi'r galwadau gan randdeiliaid am i Fil y Deyrnas Unedig gynnwys mesurau diogelu i sicrhau nad yw safonau'n cael eu tanseilio gan fewnforion

---

<sup>138</sup> Papur Tystiolaeth - TFA Cymru, 14 Tachwedd 2018

<sup>139</sup> Papur Tystiolaeth - NFU Cymru, 14 Tachwedd 2018

<sup>140</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 283, 14 Tachwedd 2018

<sup>141</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 178, 6 Rhagfyr 2018

mewn unrhyw drefniant masnach yn y dyfodol. Rydym yn ceisio eglurhad gan Lywodraeth Cymru ar unrhyw drafodaeth a gynhaliwyd gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar y mater hwn.

**Casgliad 21.** Rydym yn cytuno mewn egwyddor â'r darpariaethau a amlinellir yn yr adran hon o'r adroddiad. Fodd bynnag, rydym o'r farn **nad yw Llywodraeth Cymru wedi darparu gwybodaeth i egluro'n fanwl y dibenion y bydd yn defnyddio'r darpariaethau ar eu cyfer.** Mae'r rhain yn bwerau gweithredol helaeth, a dylai Llywodraeth Cymru egluro eu pwrpas a'u heffaith arfaethedig. Rydym yn ailadrodd ein sylwadau ynghylch yr angen am gynnwys mesurau diogelu yn Atodlen 3 er mwyn sicrhau bod y pwerau hyn yn cael eu harfer yn briodol ac yn gymesur.

**Casgliad 22.** Rydym yn cytuno â'n rhanddeiliaid ynghylch yr angen am "gydweithrediad a chytundeb" rhwng cenhedloedd cyfansoddol y Deyrnas Unedig wrth arfer y pwerau hyn. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn perthynas â safonau iechyd anifeiliaid ac ymyrraeth yn y farchnad. Rhaid ymdrin â hyn drwy fecanwaith rhynglywodraethol, ffurfiol, fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn.

## Atodiad A: Tystiolaeth lafar

Darparodd y tystion canlynol dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar 14 Tachwedd 2018. Gellir gweld trawsgrifiad o'r sesiwn tystiolaeth lafar yn llawn yma: [Trawsgrifiadau](#)

### **Tyst**

Dr Ludivine Petetin

Dr Mary Dobbs

Dr Nerys Llewelyn Jones

Dr Nick Fenwick

Huw Rhys Thomas

George Dunn

Rebecca Williams

Rachel Sharp

Frances Winder

Dr Eleanor M Harris

Tony Davies

### **Sefydliad**

Prifysgol Caerdydd

Prifysgol y Frenhines, Belfast

Ymgynghorydd Amaeth

Undeb Amaethwyr Cymru

Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru

Cymdeithas y Ffermwyr Tenant

Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad

Cyswllt Amgylchedd Cymru

Cyswllt Amgylchedd Cymru

Confor

Rhwydwaith Ffermio Natur-Gyfeillgar Cymru